



Cyngor Bro Morgannwg

# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

2017-2020



**Dysgu a Sgiliau**

# Cyngor Bro Morgannwg

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

1. Nodwch weledigaeth, nod ac amcanion eich awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf os gwelwch yn dda. Cyfeiriwch at adran 19 yn y canllawiau ar gyfer beth yr ydych chi angen ei gynnwys yn yr adran hon os gwelwch yn dda.

### **Gweledigaeth:**

Bydd y Fro yn cyfrannu at saith o nodau llesiant cenedlaethol a geir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig felly at Gymru Ffyniannus drwy ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc gyda golwg ar gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg bellach/uwch yn eu dewis iaith. Mae hyn yn cyfrannu yn uniongyrchol at amcan llesiant 3 y Cyngor: Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog, gyda champau gweithredu i ganiatáu diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus. Mae'r awdurdod yn dymuno canolbwyntio ar gyflawni cydraddoldeb a lleihau anfantais drwy ddarparu addysg o safon uchel sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc gyflawni eu potensial llawn beth bynnag yw eu cefndir.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod lleoedd cyn-ysgol ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol o'r safon uchaf yn cael eu darparu i gwrdd â'r twf yn y gofyn a bod y rhain yn hygyrch o fewn pellter rhesymol o gartrefi'r disgyblion. Mae'r ymrwymiad hwn yn adlewyrchu Canlyniad Llesiant 3 y Cyngor: Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog, yn benodol mewn perthynas ag Amcan 6: Gwerthfawrogi Diwylliant ac Amrywiaeth yn ei Gynllun Corfforaethol 2016-2020, lle mae camau gweithredu yn cael eu nodi i weithio â phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg er mwyn gwella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.

Sefydlwyd dwy ysgol ddechreuol cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2011: Ysgol Gymraeg Nant Talwg yn y Barri ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn Llanilltud Fawr. Mae'r ysgolion hyn yn awr wedi sefydlu'n llwyddiannus ac mae gan y ddwy adeiladau ysgol newydd gyda lle i 210 o blant a meithrinfeydd cyfagos. Cytunwyd i ddarparu 210 o leoedd ychwanegol o fis Medi 2015 a fydd yn cael eu cyflwyno cam wrth gam drwy ehangu Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant.

Rydym ni'n cynllunio ar gyfer 100% o ddisgyblion ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i drosglwyddo i ddarpariaeth ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Er mwyn cyflawni'r nod hon, bydd angen ehangu'r nifer o leoedd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn sylweddol erbyn 2020. Bydd y Cyngor yn cynnal gwaith dichonoldeb a datblygu yn ystod cyfnod y cynllun hwn er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod cynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn drwyadl ac yn seiliedig ar y data mwyaf diweddar sydd ar gael. Yn 2014, dechreuodd y Cyngor ddarparu rhieni gydag arolygon ar beth a fyddai'n well gan rieni ynglŷn â'r galw am ysgolion wrth iddyn nhw gofrestru genedigaethau. Bydd hyn yn arwain at barhau i arolygu'r hyn sydd yn well ganddyn nhw, a bydd yn ein galluogi i nodi tueddiadau sy'n newid yn gynharach. Mae arolwg llawn o'r hyn y mae rhieni ei angen ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, fel sydd ei angen gan reoleiddiad CSCA, yn cael ei gynllunio ar gyfer hydref 2016.

Bydd y Cyngor yn anelu at ysgogi a darparu darpariaeth leol, hygrych, gynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn cwrdd â'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy arolygon gofyn am addysg cyfrwng Cymraeg gan rieni. Bydd yr arolygon yn cael eu cynnal bob tair blynedd drwy holiadur a anfonir drwy'r post at rieni plant o dan 2 oed, gyda chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi er mwyn ymdrin â chanfyddiadau pob arolwg. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu mesur yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cynllunio'r cyngor yn effeithiol wrth gwrdd â'r galw a dyheadau rhieni sydd angen addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Bydd yr arolwg yn cael ei gefnogi drwy holiaduron cyfrwng Cymraeg parhaus a fydd yn cael eu dosbarthu i rieni wrth iddyn nhw gofrestru genedigaethau eu plant a fydd yn darparu ffrwd barhaus o wybodaeth.

Mae'r chwech o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sefydledig ac Ysgol Bro Morgannwg yn gweithio'n agos er mwyn gwella ansawdd yr addysg a'r dysgu. Mae hyn yn anelu at gynnal cynnydd ieithyddol cadarn drwy bob cam o addysg. Mae sefydlu continwwm ieithyddol cryf yn flaenoriaeth ac mae Unedau Pontio wedi cael eu datblygu'n llwyddiannus yn y cyd-destun hwn. Mae'r ddarpariaeth hon yn gwbl gynhwysol, gyda chyfleoedd i ddysgwyr gydag anghenion addysgol arbennig. Mae'r disgwyliadau yn uchel o fewn pob cyfnod allweddol, yn nhermau rhuglder a chywirdeb iaith. Mae targedau yn cael eu gosod yn unol â hynny.

Cynigir darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, gyda chefnogaeth o Goleg Caerdydd a'r Fro (CCaF). Darperir amrediad o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ein nod yw ehangu'r nifer o gyrsiau galwedigaethol sy'n cael eu cynnig er mwyn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio Cymraeg y tu allan i giatau'r ysgol. Mae Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau'r Fro yn gweithio'n agos â chydweithwyr o awdurdodau cyfagos er mwyn gwella hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon. Mae strategaethau yn cael eu llunio er mwyn caniatáu rhannu adnoddau ac agweddau o'r ddarpariaeth.

Bydd adran Cymraeg i Oedolion y Gwasanaeth Diwylliant a Chymuned yn cynnig cyrsiau dilynol ar gyfer gadawyr ysgol sy'n siarad Cymraeg, ac sy'n bwriadu cadw eu sgiliau iaith Gymraeg yn fyw ac mae'r adran yn cynnig eu datblygu ymhellach.

Drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg y tu mewn i wasanaethau'r Cyngor, fel rhan o'i strategaeth newydd ar yr iaith Gymraeg, bydd dysgwyr o bob oed yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith, gan roi cyfleoedd a hyder i ddinasyddion ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu allan i'r ysgol a/neu mewn lleoliadau dysgu ffurfiol.

Mae dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu yn helaeth ar y bartneriaeth gref rhwng yr holl rhanddeiliaid. Mae'r bartneriaeth yn anelu at sicrhau bod dysgwyr ym Mro Morgannwg yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau bob dydd. Gwneir pob ymdrech i ddarparu'r amodau gorau oll er mwyn cefnogi dinasyddion dwyieithog hyderus y dyfodol.

Sefydlwyd Fforwm Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSAG) yn y Fro i gefnogi'r prosesau cynllunio ar gyfer Cynllun 2014-17. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr Penaethiaid o leoliadau cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, cynrychiolydd o aelodau uwch staff o'n lleoliad Uwchradd a chynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid fel Mudiad Meithrin, yr Urdd a Menter Bro Morgannwg yn ogystal â swyddog RhaG sy'n cynrychioli rhieni. Mae prif swyddogion allweddol o feysydd perthnasol o wasanaeth o fewn yr awdurdod lleol sydd ynghlwm â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, Partneriaeth y Blynnyddoedd Cynnar, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Gwasanaeth Ieuenticid a Chydraddoldebau yn mynychu'r Fforwm ac maen nhw'n cyfrannu at y CSCA. Mae cynrychiolwyr o Gonsortium Canolbarth y De (CCD) yn aelodau gweithredol o Fforwm CSCA y Fro ac maen nhw'n cyfrannu at ein dogfen strategol. Mae'r Fforwm yn cael ei arwain gan uwch swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Sgiliau sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr ynglŷn â chynnydd y CSCA a'i Fforwm.

Bydd y Fforwm yn parhau i gefnogi a herio'r CSCA 2017-20 a bydd yn gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y Cynllun. Bydd y Fforwm yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn a chynnal ei amserlen monitro a gwerthuso er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer adroddiad cynnydd blynyddol y CSCA a gyflwynir i Bwyllgor Craffu Addysgol y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

**Amcanion:**

1. Ehangu ein darpariaeth iaith Gymraeg mewn addysg er mwyn cwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir.
2. Rhoi gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael i'r holl ddysgwyr.
3. Hyrwyddo'r buddion o ddefnyddio Cymraeg mewn addysg, a'r cyfleoedd y mae dwyieithrwydd yn eu caniatáu.
4. Caniatáu cyfleoedd cyfartal er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth ar gyfer pob dysgwr.

**Datganiad:**

Mae gan y Cyngor weledigaeth gref ar gyfer dyfodol Bro Morgannwg, drwy ein harwain ar sut yr ydym ni'n cynllunio, yn cyflawni ac yn adolygu ein gwasanaethau. Ein gweledigaeth yw 'Cymunedau cryf gyda dyfodol disglair'. Fel Cyngor, rydym ni wedi datblygu nifer o ganlyniadau llesiant, yn cynnwys 'Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog', sydd wedi'i anelu at sicrhau bod yr holl ddinasyddion yn cael y cyfleoedd a'r gefnogaeth i gyflawni eu potensial llawn. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gydran allweddol wrth gyflawni ein gweledigaeth a hyrwyddo buddion yr iaith Gymraeg ar gyfer ein dysgwyr, eu cymuned a'n dyfodol.

5. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Darparwch ddatganiad ynglŷn â hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol chi mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol os gwelwch yn dda. Tynnwch sylw at unrhyw heriau a/neu feysydd ymarfer da drwy gydweithredu os gwelwch yn dda.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cludo 587 o ddisgyblion i gael addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae Cyngor Bro Morgannwg, yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r Canllawiau Arfaethedig a Gweithredol Statudol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2014, yn darparu cludiant ysgol i ddisgyblion:

- sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch, yr ysgol agosaf nesaf os yw'r ysgol ddalgylch yn llawn;
- sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch, yr ysgol agosaf nesaf os yw'r ysgol ddalgylch yn llawn; a
- sydd ddim yn gallu cyrraedd eu hysgol ddalgylch gan nad oes llwybr cerdded ar gael – yn seiliedig ar asesu'r llwybr cerdded.

Darperir cludiant yn ogystal yn rhad ac am ddim i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd angen cludiant a gafodd eu nodi gan dîm Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor.

Yn ogystal, mae disgyblion rhwng 16 ac 19 oed yn gymwys i dderbyn grant teithio os ydyn nhw'n mynychu'r sefydliad addysg bellach agosaf a gyllidir yn gyhoeddus ac sy'n cynnig y cwrs y maen nhw'n dymuno ei ddilyn.

Yn ychwanegol at y gofynion statudol, mae'r Cyngor fel y gwêl orau yn cefnogi yn ariannol wasanaethau i dair o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r gwasanaethau yn darparu ar gyfer disgyblion sy'n byw o fewn y pellter cerdded o ddwy filltir ac maen nhw'n helpu gyda chynllun teithio gweithredol a darparu cludiant cynaliadwy gan y Cyngor.

6. Nodwch sut y byddwch yn cyflawni deilliannau 1-7 gan gyfeirio at adran 19 yn y canllawiau am ragor o wybodaeth am beth i'w gynnwys yn yr adrannau isod. Bydd disgwyl i chi gynnwys data ar ffurf atodiadau (mae rhestr ar gael yn Atodiad 1) er mwyn cefnogi eich hamcanion.

### Deilliant 1: Rhagor o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Nod y Cyngor yw sicrhau bod addysg Cyfrwng Cymraeg ar gael i'r holl blant y mae eu rhieni neu eu gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a bod cyflenwad y lleoedd yn bodloni'r galw presennol a'r galw a ragfynegir. Ar hyn o bryd, darparir addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg trwy chwech ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol ganol 3 – 19.

### Data Disgyblion ac Ysgolion Cyfrwng Cymraeg – Medi 2016

Ysgol Gynradd	Capasiti yr Ysgol Medi 2016	Nifer ar y Gofrestr Medi 2016	Capasiti heb ei lenwi Medi 2016	% y capasiti heb ei lenwi Medi 2016	Gormod o gapasiti Medi 2016	% gormod y capasiti Medi 2016
Ysgol Pen y Garth	420	356	64	15.24%	0	0.00%
Ysgol Iolo Morganwg	210	195	15	7.14%	0	0.00%
Ysgol Gwaun Y Nant	240	196	44	18.33%	0	0.00%
Ysgol Sant Baruc	210	188	22	10.48%	0	0.00%
Ysgol Sant Curig	420	380	40	9.52%	0	0.00%
Ysgol Dewi Sant	180	107	73	40.56%	0	0.00%
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (cyfnod cynradd)*	180	165	15	8.33%	0	0.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1860</b>	<b>1587</b>	<b>273</b>	<b>14.68%</b>	<b>0</b>	<b>0.00%</b>
Ysgol Uwchradd	Capasiti yr Ysgol Medi 2016	Nifer ar y Gofrestr Medi 2016	Capasiti heb ei lenwi Medi 2016	% y capasiti heb ei lenwi Medi 2016	Gormod o gapasiti Medi 2016	% gormod y capasiti Medi 2016
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (cyfnod cynradd)*	1151	861	290	25.20%	0	0.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1151</b>	<b>861</b>	<b>290</b>	<b>25.20%</b>	<b>0</b>	<b>0.00%</b>

\*Ysgol 3-19 Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

### Asesu'r Galw

Mae methodoleg y Cyngor er mwyn rhagamcanu'r galw am leoedd yn ystyried tueddiadau hanesyddol a data ynghylch y niferoedd ar y gofrestr, ynghyd â data poblogaeth y gwasanaeth iechyd cyn ysgol unigoleddig er mwyn rhagamcanu ar lefel ysgol unigol. Yn ogystal, mae'r adran yn gweithio mewn partneriaeth agos ag adran gynllunio y cyngor er mwyn sicrhau bod methodolegau er mwyn rhagamcanu niferoedd disgyblion o ddatblygiadau tai newydd yn cael sylw digonol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid A106 er mwyn darparu unrhyw leoedd ysgol Cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn yr ardaloedd hynny. Yr amcanestyniadau hyn yw sail proses y Cyngor o gynllunio lleoedd ysgol ac maent yn cynorthwyo amseriad prosiectau adeiladu ysgolion yn ei gais llwyddiannus am gyllid gan ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cynnal arolwg rheolaidd ymhlith rhieni plant cyn ysgol yn unol â rheoliadau WESP 2013 er mwyn nodi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg yn y dyfodol. Cynhaliwyd arolygon yn 2009 a 2013 a bwriedir cynnal arolwg pellach yn 2016

### Asesiad o Addysg Cyfrwng Cymraeg

Fel y rhagfynegwyd, ac yn unol â chanfyddiadau asesiad addysg cyfrwng Cymraeg 2009, roedd nifer y ceisiadau derbyn ar gyfer y bum Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fro ar gyfer mis Medi 2011 yn uwch na'r rhif derbyn a neilltuwyd ar gyfer y bum ysgol. Rhoddwyd sylw i'r diffyg hwn trwy agor ysgol newydd yn Llanilltud Fawr, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, a phedwaredd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Barri, Ysgol Gymraeg Nant Talwg, ym mis Medi 2011. Er mwyn bodloni'r cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Penarth, adeiladwyd bloc newydd yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth yn Ysgol Pen y Garth yn 2011 er mwyn cynyddu'r capasiti derbyn o 350 i 420 o leoedd.

Roedd arolwg 2013 yn dynodi bod y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn gryf ym Mro Morgannwg. Un ffactor posibl sy'n dylanwadu ar y galw yw'r pellter rhwng cartref rhieni a'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf. Dangosodd yr arolwg mai 25.77% yw cyfanswm canran y galw amcangyfrifedig yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Fro ymhlith y rhieni hynny sy'n byw o fewn 2 filltir i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, o blith y carfannau a dargedwyd, a'r galw amcangyfrifedig ymhlith y rhieni hynny sy'n byw dros 2 filltir i ffwrdd o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yw 19.39%. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod galw cudd am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd yn y Fro sydd dros 2 filltir i ffwrdd o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

Cynhelir asesiad pellach o addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod yr hydref 2016. Bydd yr holiadur yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Caiff dadansoddiad o'r arolwg hwn er mwyn tywys cynlluniau pellach ar gyfer darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg ei gwblhau yn ystod tymor y gwanwyn 2017.

Cynhelir yr arolwg ymhlith rhieni sydd â phlant dan 2 oed, sef y plant hynny a anwyd rhwng 1 Hydref 2014 a 31 Awst 2016. Bydd y Cyngor yn ystyried ffyrdd o gipio ffrwd barhaus o ddata rhwng arolygon er mwyn galluogi gwaith cynllunio manylach ar gyfer y dyfodol, er mwyn bodloni'r galw am addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

**Nodwch eich sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'ch targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf.**

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
244	238	231	242

Blwyddyn	Carfan – Disgyblion NC Blwyddyn 2	Addysgir fel Cymraeg Iaith Gyntaf	% a Addysgir fel Cymraeg Iaith Gyntaf
2015/16	1617	244	15.00

*Ffynhonnell y data CYBLD 2016*

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deiliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).**

**Amcanion:**

1. Nod y Cyngor yw sicrhau bod cyflenwad y lleoedd yn bodloni'r galw presennol a'r galw a ragwelir. Bydd y gwasanaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau yn parhau i adolygu amcanestyniadau o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn, er mwyn cyfrannu at y cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth yr awdurdod er mwyn cynllunio lleoedd ysgol. Cynhelir arolygon rheolaidd ynghylch dewisiadau rhieni, gan gynorthwyo amcanestyniadau disgyblion, ynghyd â chyllid A106 sy'n cyfrannu gwybodaeth am y galw am leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.
2. Nid oes gan Fro Morgannwg Ganolfan Drochi/cynllun Trochi Cymraeg ar hyn o bryd. Ystyrir dewisiadau i gyflwyno cynllun Trochi Cymraeg ym Mro Morgannwg.
3. Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) – Dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod gofal plant digonol yn bodoli er mwyn diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio a rhieni mewn addysg neu hyfforddiant. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnal ei bedwerydd CSA (2016-17) llawn ar hyn o bryd, a bydd yn ymgynghori â rhieni, darpar rieni, sefydliadau gan gynnwys Mudiad Meithrin a Menter Bro Morgannwg, ac awdurdodau lleol cyfagos er mwyn asesu'r angen am ragor o ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir yr adroddiad terfynol, ynghyd â Chynllun Gweithredu, i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2017 a bydd hwn ar gael i'r cyhoedd ar yr un pryd.
4. Nod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) y Fro yw gwneud gwaith cynyddol gyda phartneriaid gan gynnwys Menter Bro Morgannwg, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Llyfrgelloedd y Fro a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, er mwyn codi proffil cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y Fro ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau, eu cymorth a'u gweithgareddau ar gael i rieni a gofalwyr. Bydd GGD yn diweddarau ei dudalennau ar y we ynghylch 'Siarad Cymraeg' gyda gwybodaeth gyfredol, a bydd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo grwpiau a mentrau newydd. Bydd



GGD yn gofyn i bob un sy'n gwneud ymholiad a hoffent gael gwybodaeth am ofal plant, gwasanaethau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

### Datganiad cefnogol

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwyddyn	Nifer y plant yng ngharfan blwyddyn 2*	Disgyblion Blwyddyn 2 mewn addysg cyfrwng Cymraeg*	
		No	%
2009/10	1445	187	12.94
2010/11	1407	179	12.72
2011/12	1472	184	12.5
2012/13	1469	195	13.27
2013/14	1573	208	13.22
2014/15	1648	240	14.56
2015/16	1617	244	15.09
2016/17	1672**	238	14.23
2017/18	1632**	231	14.15
2018/19	1416***	242	17.09

\* Data yn unol â CYBLD Ionawr

\*\* Seiliwyd y niferoedd rhagamcanol ar y plant sy'n mynychu darpariaeth feithrin, derbyn a blwyddyn 1 ar hyn o bryd, y byddant yn symud ymlaen i flwyddyn 2 dros y 3 blynedd nesaf.

\*\*\* Nid yw hyn yn cynnwys niferoedd gan Mudiad Meithrin, lleoliadau nas cynhelir neu ddarparwyr preifat gan nad yw'r data hwn ar gael.

Mae'r galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Fro wedi bod yn codi'n raddol dros y ddegawd ddiwethaf, ac adlewyrchir hyn yn y cynnydd blynyddol yn niferoedd y disgyblion sy'n cael Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn 2007/8, addysgwyd 10.26% o gyfanswm y garfan trwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu ag 13.27% o gyfanswm y garfan yn 2012/13 (CYBLD Ionawr 2013) gan godi i 15.09% o gyfanswm y garfan yn 2015/16 (CYBLD Ionawr 2016).

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yn cynnwys gofynion i roi sylw i anghenion addysgol sy'n deillio o ddatblygiadau tai newydd. Ystyrir y gofyniad am leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ystod y broses o gynllunio unrhyw leoedd ysgol ychwanegol.

Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae'r cyngor wedi cynyddu'r capasiti cyffredinol yn y sector cynradd gymaint â 577 lle, o 1343 lle yn CYBLD 2011 i 1920 lle yn CYBLD 2016. Cyflwynir 30 lle pellach bob blwyddyn yn Ysgol Gwaun y Nant, rhwng 2016 a 2021. Bydd hyn yn cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd i 2100 o leoedd erbyn 2021.

Mae nifer y lleoedd derbyn cyfrwng Cymraeg sydd ar gael wedi codi o 197 i 300 o leoedd er 2011. Ar gyfer mis Medi 2016, cafodd yr awdurdod 255 o geisiadau am leoedd derbyn at ei gilydd, am y 300 o leoedd sydd ar gael. Ym mis Medi 2011, cafodd y cyngor 182 o geisiadau.

Ym mis Medi 2016, roedd 273 o leoedd gwag (14.68%) yn y sector cynradd, ac roedd yr amrywiadau ar lefel ysgolion unigol yn amrywio o 41% i 7% o ran capasiti gwag. Nid oes unrhyw ysgolion lle y gwelir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae amcanestyniadau disgyblion yn dynodi na fydd y sefyllfa hon yn newid yn sylweddol yn ystod cyfnod y cynllun nac am gryn amser eto. Bydd y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn i ehangu'r ddarpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg yn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am leoedd cyfrwng Cymraeg am gryn amser eto, ac yn ystod cyfnod y cynllun.

Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd pwysau ar y sector uwchradd Cyfrwng Cymraeg, gan gychwyn yn 2018 tan 2020, ac ar hyn o bryd, mae'n ystyried dewisiadau er mwyn ehangu nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg o fis Medi 2020. Er 2011, mae Bro Morgannwg wedi sefydlu dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a chynyddu'r capasiti mewn dwy ysgol arall. Cychwynnodd yr ysgolion newydd gyda niferoedd derbyn yn 2011 a byddant yn hollol weithredol yn 2017 o'r derbyn i flwyddyn 6. Bydd ehangu'r sector cynradd Cyfrwng Cymraeg yn arwain at niferoedd uwch o blant yn symud ymlaen i Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y Fro o fis Medi 2018 ymlaen.

Prif ffocws yr awdurdod ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yw rhoi sylw i'r diffyg rhagamcanol yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2020 er mwyn sicrhau y byddai modd i'r disgyblion sy'n mynychu o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gael lle yn y cyfnod addysg uwchradd yn y dyfodol.

#### Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain

Mae cynlluniau yn y dyfodol am leoedd cyfrwng Cymraeg yn ddibynnol ar y ffaith y bydd cyllid ar gael trwy'r cynigion sy'n cael eu cynnwys yn Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain y Fro.

Sefydlwyd Ysgol Nant Talwg ac Ysgol Dewi Sant er mwyn cynnig lle i niferoedd cynyddol y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn y Barri ac yn Llanilltud Fawr. Cynhwyswyd Ysgol Dewi Sant ym Mand B ac Ysgol Nant Talwg ym Mand C y Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) wreiddiol. Yn y RhAS diwygiedig, symudwyd y ddwy ysgol ymlaen i Fand A. Agorwyd y ddwy ysgol i blant derbyn a meithrin yn unig ym mis Medi 2011 er mwyn delio â niferoedd cynyddol y disgyblion sy'n gwneud cais am addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgolion yn parhau i ehangu fesul tipyn wrth i'r dosbarth derbyn presennol symud trwy'r ysgol.

#### Ysgol Gymraeg Nant Talwg

Buddsoddiad o £2.77 miliwn i gael ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd sy'n cynnwys 210 lle, a gwblhawyd yn 2014, er mwyn bodloni'r galw uwch am addysg cyfrwng Cymraeg yn y Barri.

#### Ysgol Gwaun y Nant

Ym mis Mai 2014, cwblhawyd proses statudol i ehangu Ysgol Gwaun y Nant yn y Barri i 420 lle. Cymeradwyodd y Cabinet y cam o ehangu'r ysgol, a chwblhawyd y gwaith hwn ym mis Tachwedd 2015. Bydd yr ysgol yn ehangu fesul tipyn, gymaint â 30 lle y flwyddyn yn ôl y niferoedd derbyn, nes 2021.

#### Ysgol Dewi Sant

Cwblhawyd buddsoddiad o £3.04 miliwn er mwyn cael ysgol newydd i Ysgol Dewi Sant, i gynnwys 210 lle, ym mis Medi 2015.

### Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Sefydlwyd Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg 3-19 yn cynnwys 1,361 lle, sef Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ym mis Medi 2015 trwy uno Ysgol Gymraeg Nant Talwg ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Yn flaenorol, roedd y ddwy ysgol yn rhan o drefniant ffederal dan un corff llywodraethu a Phennaeth ac fe'u lleolwyd ar safleoedd cyffiniol yn y Barri. Mae'r broses uno yn fodd o gyfuno cryfderau o fewn yr ysgolion ar wahân ac i gyfrannu at ddarpariaeth o ansawdd uchel mewn un ysgol.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg trwy ehangu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ei safle bresennol o 1361 lle i 1660 lle yn 2010 er mwyn ymateb i'r galw yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi tua £19 miliwn mewn rhaglen uchelgeisiol o waith adnewyddu ac adeiladau newydd. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yn cynnwys cyllid trwy Fand B Rhaglen Ysgolion yr Unfed ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru (disgwyllir iddo fod yn tua 50% neu 9.6m). Bwriedir y bydd y cyllid hwn ar gael yn 2019.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi ymgynghori am y cynnig uchod, gan adolygu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Cyfarfu Cabinet y Cyngor ar 26 Medi 2016 er mwyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn ystod y cyfarfod hwnnw, cymeradwywyd y cam o fwrw ymlaen gyda hysbysiad statudol am y cynnig, i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Trwy gyfrwng y cynnig hwn, ynghyd â'r buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd cyfreithiol i ddarparu capasiti mewn ysgolion i fodloni'r galw am leoedd mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol ym Mro Morgannwg.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yn cynnwys gofynion i roi sylw i anghenion addysgol sy'n deillio o ddatblygiadau tai newydd. Ystyrir y gofyniad am leoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ystod y broses o gynllunio unrhyw leoedd ychwanegol mewn ysgolion.

### Gwybodaeth i rieni/gofalwyr

Darparir llyfryn dwyieithog o'r enw 'Addysgu Plant ym Mro Morgannwg' i'r holl rieni a gofalwyr, sy'n esbonio'r ddarpariaeth yn y Fro. Mae modd cael gwybodaeth bellach am ddalgylchoedd ysgolion gan adran derbyn Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg yn:

### Tudalen Derbyn i Ysgolion ar y we – Cyngor Bro Morgannwg

Hyd yn hyn, ni chaiff unrhyw wybodaeth ynghylch y ddarpariaeth y tu allan i'r sir ei chynnwys yn llyfryn y Fro ar gyfer rhieni. Fodd bynnag, efallai bod hwn yn faes y bydd angen rhoi sylw iddo wrth i gynlluniau gael eu datblygu i gydweithio ar draws consortia yn y dyfodol.

### Diweddariad

### **Capasiti a chynllunio cyfrwng Cymraeg**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod er mwyn gyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae angen buddsoddiad sylweddol o ran darpariaeth addysg i gynhyrchu a hwyluso galw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r galw hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghyflwyniad Band B y Cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, sydd â'r capasiti i gyflwyno lleoedd sylweddol

cyfrwng Cymraeg ledled bob sector, ac i adlewyrchu datblygiadau tai mawr newydd sydd wedi'u cynllunio dros y ddeng mlynedd nesaf.

Yn benodol, mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys adleoli ac ailddatblygu ysgol cyfrwng Cymraeg presennol, gan gynnig gofod sydd wirioneddol ei angen ynghyd â'r cyfle i ymestyn gan gynnig lle i 105 o ddisgyblion ychwanegol. Yn ogystal, mae dwy ysgol gynradd newydd yn y rhaglen, gyda chyfanswm capasiti o 630 o leoedd. Bydd y Cyngor yn ystyried cymeriad yr ysgolion hyn yn rhai cyfrwng Cymraeg yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth, ac yng nghydestun y fframwaith Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae gofyn cael cadarnhad gan Gabinet y Cyngor, ynghyd ag ymgynghoriad ag ysgolion.

Byddai'r ddarpariaeth gynradd newydd yn golygu 63 o leoedd meithrin ychwanegol ac yn hwyluso datblygiad gofal cofleidiol i rieni, gan gysylltu â'r cynnig gofal plant cenedlaethol o 30 awr o ofal plant am ddim drwy gyfuniad o ddarpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen presennol a gofal plant arall sydd wedi'i ariannu. Bydd darpariaeth gynradd newydd ac ychwanegol yn rhoi cyfle i ddatblygu'r ddarpariaeth blyneddoddd cynnar a meithrin yn unol â strategaethau sydd wedi'u cydnabod yn genedlaethol.

Yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg, mae'r rhaglen yn mynd ar ôl y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ar ôl cyflwyno ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd dan Fand A (gan ddefnyddio model ysgol epil), ynghyd â'r cynnydd disgwylidiedig mewn galw yn unol ag agenda Cymraeg 2050 a thargedau presennol a nodir yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg (WESP) y Fro.

Isod, ceir cyfrifiadau'n amlinellu'r effaith a'r cynnydd mewn capasiti os caiff y rhaglen Band B ei hariannu ar y lefelau gofynnol ac os yw'r ddwy ysgol gynradd dan sylw yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Disgwylir ar ôl gweithredu CSAG y Cyngor, y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a'r mentrau sydd ynghlwm wrth Cymraeg 2050, bydd ychydig o symud o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg.

Y Drefn Arferol				Opsiw'n Dewisol ym Mand B			
Oedran	Cymraeg	Cymysg	Saesneg	Oedran	Cymraeg	Cymysg	Saesneg
<b>3-4</b>				<b>3-4</b>			
Capasiti	458	0	2056	Capasiti	647	0	2316
NOR	377	0	1782	NOR	419	0	2039
% lleoedd gwag	17.7%	0	13.3%	% lleoedd gwag	35.2%	0	11.9%
<b>5-11</b>				<b>5-11</b>			
Capasiti	1860	0	10257	Capasiti	2595	0	11051
NOR	1719	0	9782	NOR	1835	0	10496
% lleoedd gwag	7.6%	0	4.6%	% lleoedd gwag	29.2%	0	5%
<b>11-16</b>				<b>11-16</b>			
Capasiti	945	0	7773	Capasiti	1190	0	7297
NOR	903	0	6982	NOR	903	0	6982
% lleoedd gwag	4.4%	0	10.1%	% lleoedd gwag	24.1%	0	4.3%
<b>Ôl-16</b>				<b>Ôl-16</b>			

Capasiti	205	0	1566	Capasiti	259	0	1488
NOR	146	0	1483	NOR	146	0	1483
% lleoedd gwag	28.8%	0	5.3%	% lleoedd gwag	43.6%	0	0.3%

### Trefniadau Pontio

Er mwyn bodloni targed Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd twf addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar gynnydd yn y galw ymhlith rhieni yn dilyn hyrwyddo dwyieithrwydd ychwanegol, a thrwy greu galw newydd drwy wneud mwy o ddarpariaeth ar gael.

Canlyniad tebygol o'r mentrau uchod fydd cynnydd yn y galw o ran cefnogi disgyblion yn hwyrach ymlaen o ran pontio o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, bydd angen i'r Cyngor hwyluso trefniadau pontio i gefnogi'r dysgwyr hynny.

Mae nifer o opsiynau ar gael:

#### 1. Disgyblion y Fro yn mynychu'r Ganolfan Trochi Iaith Gymraeg yng Nghaerdydd

- Disgyblion yn mynychu hyd at 12 wythnos mewn canolfan drochi, Uned Trochi Glan Ceubal
- Maent wedi cofrestru â'u hysgol cyfrwng Cymraeg ac yn mynychu'r uned bob amser cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Maent yn treulio prynhawn dydd Gwener yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg y maent wedi trosglwyddo iddi.

Rydym yn rhoi'r opsiwn hwn ar waith ym mlwyddyn academiaidd 2017/18 gyda nifer o ddisgyblion o'r Fro'n mynychu'r ganolfan.

#### 2. Sefydlu canolfan drochi gyffelyb yn ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol.

- Nid yw'r opsiwn hwn yn bosibl ar hyn o bryd o ystyried y nifer fechan o ddisgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg fyddai'n elwa o'r gwasanaeth.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chonsortium Canolbarth y De ac yn ystyried canolfan ranbarthol, o bosibl yn y fro wledig/yng ngorllewin y Fro, a fyddai'n cysoni economïau graddfeydd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gydag ystod ehangach o ddisgyblion.

#### 3. Ystyried darparu swm o arian fesul plentyn ar gyfer y rheiny sy'n trosglwyddo. Gallai'r cyllid hwn ryddhau athro neu gynorthwydd cefnogi dysgu o un o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg i ddarparu gwasanaeth allgymorth i'r ysgolion hynny sy'n derbyn y disgybl yn trosglwyddo o gyfrwng Cymraeg.

- Mae'n debyg mai hyn yw'r model mwyaf effeithlon, ond mae'n dibynnu ar yr ysgol neu'r clwstwr yn cefnogi'r athro neu'r cynorthwydd cefnogi dysgu am gyfnodau pan nad oes angen y gwaith allgymorth.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb ynghylch y model cyflenwi'n seiliedig ar glystyrau ysgolion er mwyn cefnogi trefniadau athrawon cyflenwi dros gyfnodau o salwch ac i adeiladu capasiti. Gallai'r rhaglen 2 flynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru ryddhau staff i gynnig cymorth yn yr ysgol.

4. Ehangu cylch gwaith y tîm Saesneg fel laith Ychwanegol i gefnogi cymorth Cymraeg, i blant sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg.

#### Consortiwm Canolbarth y De

Seiliwyd model gwella canolbarth de Cymru ar ymarferwyr arbenigol yn darparu rhaglenni datblygiad proffesiynol i'w cymheiriaid a gyda'u cymheiriaid. Darparir y rhaglenni hyn mewn 'canolfannau' ysgol, sydd ar gael i'r holl ymarferwyr; neu maent yn ffocws ar gyfer gwaith y Grwpiau Gwella Ysgolion (GGYiau) – grwpiau bach o ysgolion sy'n cydweithio ar angen datblygu a nodwyd). Ariannir y gwaith hwn gan y Consortiwm ac mae'n cael ei fapio yn erbyn yr angen rhanbarthol. Yn ogystal, mae'r rhanbarth yn cydweithio'n agos â rhwydwaith arloesi Dyfodol Llwyddiannus.

Gan ddefnyddio'r model hwn, bydd y consortiwm rhanbarthol yn cefnogi'r continwmm iaith trwy:

- Ariannu a chynorthwyo rhaglenni dysgu proffesiynol yn erbyn yr angen rhanbarthol (yn enwedig mewn perthynas â datblygu'r gweithlu a gwella sgiliau iaith ymarferwyr).
- Cynorthwyo gwaith y rhwydwaith arloesol wrth iddynt weithio ar fanylion y continwmm Cymraeg.

Mae hwn yn faes a fydd yn datblygu'n sylweddol yn ystod cyfnod y WESP cyfredol wrth i fanylion y cwricwlwm ddod yn fwy eglur. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn cynnwys:

- Hyfforddiant Cymraeg Dwys (Lefel Sylfaenol)
- Hyfforddiant Cymraeg Dwys (Lefel Ganolradd)

Mae effaith canolfan canolbarth de Cymru a model SIG yn destun rhaglen ymchwil a gwerthuso, a fydd yn monitro effaith y ddarpariaeth ar ymarferwyr a dysgwyr yn allanol.

#### Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg

Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2016:

- 5 Cylch Meithrin cofrestredig ym Mhenarth, Y Barri, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr.
- 2 Gylch Meithrin anghofrestredig yn Ninas Powys (bydd hwn yn ceisio cofrestru erbyn diwedd 2016) a'r Barri (yn aros am gadarnhad o'i gofrestrriad).
- 2 gynllun gofal cofrestredig yn ystod y gwyliau yn y Barri.
- 2 glwb ar ôl ysgol anghofrestredig ym Mhenarth ac yn y Barri.

Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg / Saesneg:

- 4 gwarchodwr plant.
- 2 feithrinfa ddydd ym Mhenarth a'r Bont-faen.

Darpariaeth gofal plant dwyieithog:

- 4 gwarchodwr plant.

Caiff y wybodaeth hon ei diweddarau ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) ym mis Mawrth 2017.

Diweddariad:

Llanilltud Fawr

Mae Cylch Meithrin Llanilltud Fawr yn Grŵp Chwarae Cyfrwng Cymraeg yn Llanilltud Fawr. Mae'n rhedeg 2 sesiwn o ddydd Llun i ddydd Gwener, 09:00am – hanner dydd a 13:15pm – 16:15pm. Mae'r Grŵp Chwarae'n cael ei gynnal yn yr Hen Ysgol, Wine St, Llanilltud Fawr. Nodwyd bod y grŵp wedi cael trafferth yn ceisio cael plant yno yn ddiweddar.

Penarth

Oes unrhyw heriau o ran gofal plant ym Mhenarth?

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol am unrhyw heriau penodol yn ardal Penarth o ran Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg.

Ymhlith y ddarpariaeth bresennol ym Mhenarth mae:

- 2 ofalwr plant sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog – wedi cofrestru ag AGGCC.
- Cylch Meithrin Bethel sydd â chapasiti ar gyfer uchafswm o 18 o blant (rhwng 2 a hanner a 5 oed). Mae ychydig o leoedd yno ar hyn o bryd. Mae'r Cylch wedi cofrestru ag AGGCC.
- Mae Clwb Carbo'n rhedeg clwb ar ôl ysgol sydd heb gofrestru yn Ysgol Gynradd Pen y Garth.
- Mae Meithrinfa St Aubin ym Mhenarth yn lleoliad dwyieithog gydag oddeutu 100 o leoedd - mae 15 ohonynt yn lleoedd cyfrwng Cymraeg. Dim ond 2-3 o leoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n cynnig darpariaeth cofleidiol i Ysgol Pen y Garth.

Er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw fylchau o ran gofal plant neu faterion cynaladwyedd mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes, mae grant cynaladwyedd ar gael i leoliadau cyn ysgol a Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol ar gyfer gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae Swyddog Monitro Ansawdd Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ar gael i gyfarfod â lleoliadau gofal plant hefyd i drafod cynlluniau busnes, cynaladwyedd, hyfforddiant, gwella ansawdd ac ati.

Mae modd trefnu cyfarfodydd unigol sy'n cynnwys eitemau penodol ar yr agenda.

Mae gwaith mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin a Menter Bro Morgannwg yn parhau i ddigwydd gyda'r ddau bartner. Mae'r partneriaid hyn yn aelodau o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) hefyd. Ar hyn o bryd, mae EYDCP yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, a'i dyletswyddau statudol dan Ddeddf Gofal Plant 2006.

### Mudiad Meithrin

Mae'n weledigaeth gan Lywodraeth Cymru y bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nid yw'n realistig credu y gellir gwireddu'r weledigaeth hon heb weld cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu gofal plant ac addysg Cyfrwng Cymraeg.

Bydd Mudiad Meithrin, mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg ac fel rhan o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP), yn ystyried:

- cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhieni o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg o'r adeg gynharaf (e.e. cynenedigol yn ogystal ag ôl-enedigol);
- adolygu nifer y lleoliadau Dechrau'n Deg yn yr Awdurdod Lleol;
- adolygu nifer y lleoliadau Ti a Fi, gyda'r nod o ddatblygu Cylchoedd Meithrin yn y tymor hir;
- hyrwyddo gwaith Cymraeg i Blant yn y Fro trwy gyfrwng y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) ac offerynnau marchnata cyfryngau cymdeithasol eraill;
- codi proffil manteision addysg Cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd ymhlith staff gwasanaethau plant a meddu ar y gallu i ateb pryderon perthnasol rhieni;
- ystyried dewisiadau er mwyn darparu hyfforddiant ar gyfer staff, gan gynnwys bydwagedd, ymwelwyr ieuchyd, staff cymorth Dechrau'n Deg, staff GGD ac ati, ar ôl sicrhau cymeradwyaeth mewn cyllidebau;
- argaeledd grantiau er mwyn cynorthwyo Mudiad Meithrin i ddatblygu Cylchoedd Ti a Fi. Y rhwystr mwyaf sy'n atal eu datblygiad yw diffyg cyllid er mwyn talu rhent a chyflog arweinwyr; a'r
- ffordd orau o barhau i gynorthwyo cylchoedd i ddatblygu eu lleoliadau – ymestyn yr oriau gofal plant a gynigir, darpariaeth gofleidiol gydag ysgolion yn unol â chyllid sydd ar gael ar ffurf grantiau er mwyn galluogi datblygiad lleoliadau.

### Dysgu Oedolion yn y Gymuned – hyfforddiant ieithyddol cyfrwng Cymraeg

Caiff cyfleoedd dysgu teuluol yn ystod y gwyliau haf a ddarparir gan dîm Dysgu Cymraeg – Y Fro eu cynyddu dros y dair blynedd nesaf er mwyn galluogi teuluoedd y mae eu plant yn mynychu ysgolion Cymraeg i gael cyswllt â'r iaith yn ystod y gwyliau hir, a chynnig cyfleoedd i oedolion gael cyswllt â dysgu oedolion.

Mae contract newydd a ddyfarnwyd i Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) Cymraeg i Oedolion (CiO) ar gyfer 2016-17 yn rhoi blaenoriaeth i ddarpariaeth prif ffrwd unwaith yr wythnos. Darparir cyrsiau dwys, ddwywaith yr wythnos (am 30 wythnos y flwyddyn). Cynhaliwyd cwrs peilot undydd i deuluoedd yn ystod gwyliau'r haf 2016, a darparir cyrsiau Rhagflas ar gyfer dysgwyr ESOL yn y Ganolfan Dysgu Agored newydd yn Llyfrgell Y Barri.

Anfonir diweddariadau at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn rheolaidd am ddysgu cyfrwng Cymraeg a Dysgu Cymraeg ôl-16 ac i deuluoedd.



**Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Nodwch eich sefyllfa bresennol a thargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (laith Gyntaf)

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
162	166	159	159

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).**

**Amcanion:**

1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro'r cynnydd ac yn adolygu'r sefyllfa bob blwyddyn er mwyn cynnal cyfraddau trosglwyddo cadarnhaol ym Mro Morgannwg.
2. Mae'r Awdurdod Lleol a Chonsortium Canolbarth y De yn cefnogi strategaethau er mwyn parhau i gyfrannu at gyfradd cadw uchel.
3. To increase the number of pupils transferring from Welsh-medium primary to Welsh-medium secondary by ensuring that pupils and parents / carers realise the benefits of continuing within the sector.
4. To work in partnership with the Central South Consortium to establish appropriate provision for pupils joining Welsh-medium education later than Reception as the demand increases.

**Datganiad cefnogol:**

Beth yw canran bresennol y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (laith Gyntaf)?

Sut mae'r ffigwr hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a aseswyd yn Gymraeg (laith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach?

Blwyddyn	Carfan – Blwyddyn 9	Carfan – Blwyddyn 9 a Aseswyd fel disgyblion Cymraeg laith Gyntaf	% y disgyblion Blwyddyn 9 a Aseswyd fel rhai Cymraeg laith Gyntaf
2015/16	1403	118	8.41

*Ffynhonnell y data NDC 2016. Ni chynhwyswyd NEWBES.*

Blwyddyn	Carfan – Blwyddyn 6	Carfan – Blwyddyn 6 a Aseswyd fel disgyblion Cymraeg Iaith Gyntaf	% y disgyblion Blwyddyn 6 a Aseswyd fel rhai Cymraeg Iaith Gyntaf
2012/13	1363	120	8.80

*Ffynhonnell y data NDC 2013. Ni chynhwyswyd NEWBES.*

Nodir na welir gwahaniaeth arwyddocaol rhwng nifer y dysgwyr a aseswyd yn Gymraeg fel eu hiaith gyntaf ym Mlwyddyn 6 ac ym Mlwyddyn 9 ar gyfer carfan 2015/16.

#### Cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Mae'r niferoedd sy'n mynychu Ysgol Gyfun Bro Morgannwg (YGBM), yr unig ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fro, yn cynyddu'n raddol wrth i'r niferoedd yn y lleoliadau cynradd cyfrwng Cymraeg gynyddu. Rhagwelir y bydd y cynnydd mewn capasiti ar lefel gynradd yn cael effaith sylweddol ar y niferoedd a fydd yn trosglwyddo i'r Uwchradd, ac felly, a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

#### **Trosglwyddo effeithiol a dilyniant ieithyddol**

Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n trosglwyddo i ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg:

Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym mlwyddyn 6	Cyfanswm y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
<b>Medi 2013</b> Aseswyd 121 o ddisgyblion yn 2012-13 yn CA2 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro.	Trosglwyddodd 117 o'r disgyblion hyn i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	96.69%
<b>Medi 2014</b> Aseswyd 171 o ddisgyblion yn 2013-14 yn CA2 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro.	Trosglwyddodd 165 o'r disgyblion hyn i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	96.49%
<b>Medi 2015</b> Aseswyd 173 o ddisgyblion yn 2014-15 yn CA2 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro.	Trosglwyddodd 168 o'r disgyblion hyn i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	97.10%
<b>Medi 2016</b> Aseswyd 169 o ddisgyblion yn 2015-16 yn CA2 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro.	Trosglwyddodd 162 o'r disgyblion hyn i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	95.85%

Datblygu trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y ddarpariaeth nas cynhelir a ariannir i ddarpariaeth ysgolion a gynhelir, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnod Allweddol 3 a 4.

Mae nifer y lleoedd derbyn cyfrwng Cymraeg sydd ar gael wedi codi o 197 i 300 o leoedd er 2011. Ar gyfer mis Medi 2016, cafodd yr awdurdod 255 o geisiadau derbyn at ei gilydd, am y 300 o leoedd sydd ar gael. Bydd y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn i ehangu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn bodloni'r galw presennol a ragfynegir am leoedd cyfrwng Cymraeg am gryn amser eto.

Mae'r holl Ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg yn ysgolion a gynhelir ac mae ganddynt ddarpariaeth feithrin. Isod, mae modd gweld canran gymedr y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen ac sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg. (Darparwyd y data gan Mudiad Meithrin)

Data 2016-17 gan Mudiad Meithrin:

Sir	Enw'r Cylch	2016-17		Nodiadau
		Nifer sy'n Trosglwyddo i Addysg Gymraeg	% sy'n Trosglwyddo i Addysg Gymraeg	
Bro Morgannwg	Bethel	17	77.27%	
Bro Morgannwg	Bethesda y Fro	28	77.78%	
Bro Morgannwg	Dechrau Dysgu Gibbonsdown	14	93.33%	
Bro Morgannwg	Dinas Powys	11	100.00%	
Bro Morgannwg	Llanilltud Fawr	31	91.18%	
Bro Morgannwg	Dechrau'n Deg Pili Pala (Y Barri)	26	83.87%	
Bro Morgannwg	Y Bont-faen	19	86.36%	

Mae Mudiad Meithrin yn hysbysu Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol o niferoedd presenoldeb mewn Cylchoedd Meithrin a'r niferoedd sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn.

Cylch	Sir	Capasiti'r cylch (yn ol cofrestrriad AGGCC)	Capasiti'r cylch (real)	Nifer plant 2 oed (oedran ar 31.08.16)	Nifer plant 3 oed (oedran ar 31.08.16)	Nifer wedi mynychu Ti a Fi	Nifer Dechrau'n Deg
Bethel (Penarth)	Bro Morgannwg	16	16	23	2	13	0
Bethesda y Fro	Bro Morgannwg	24	30	29	12	9	0
Dinas Powys	Bro Morgannwg	Heb gofrestru	8	9	3	11	0
Y Bontfaen	Bro Morgannwg	24	24	22	16	24	0
Pili Pala (Y Barri)	Bro Morgannwg	28	16	19	31	2	51
Llanilltud Fawr	Bro Morgannwg	14	14	11	29	22	0
Dechrau Dysgu Gibbonsdown	Bro Morgannwg	28	28	6	12	3	0

## Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2

Trosglwyddiad	Carfan NC BI2 2015 CIG	Carfan NC BI3 2016 CIG	Cyfareb B2 2015 gyda disgyblion B3 2016 CIG	% y Trosglwyddiad o CS i CA2
<b>CS i CA2</b>	240	236	234	97.5

*Ffynhonnell y data: CYBLD 2015 a 2016*

Trosglwyddodd 97.5% o'r disgyblion o B2 i B3 yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg y Fro. Trosglwyddodd 6 disgybl i ysgolion cyfrwng Saesneg yn y Fro. Cyrhaeddodd 2 ddisgybl newydd o'r tu allan i'r Awdurdod Lleol.

## Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Trosglwyddiad	Carfan NC BI6 2015 CIG	Carfan NC BI7 2016 CIG	Cyfareb B6 2015 gyda disgyblion B7 2016 CIG	% y Trosglwyddiad o CA2 i CA3
<b>CA2 i CA3</b>	173	168	166	95.95

*Ffynhonnell y data: CYBLD 2015 a 2016*

Trosglwyddodd 95.95% o ddisgyblion o B6 i B7 yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg y Fro. Aeth 2 ddisgybl i ysgolion cyfrwng Saesneg yn y Fro. Gadawodd 5 disgybl yr Awdurdod Lleol.

## Cyfnodau Allweddol 3 a 4

Trosglwyddiad	Carfan NC BI9 2015 CIG	Carfan NC BI10 2016 CIG	Cyfareb B9 gyda disgyblion B10 2016 CIG	% y Trosglwyddiad o CA3 i CA4
<b>CA3 i CA4</b>	125	123	123	98.4

*Ffynhonnell y data: CYBLD 2015 a 2016*

Trosglwyddodd 98.4% o ddisgyblion o B6 i B7 mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Roedd y ddau ddisgybl wedi gadael yr Awdurdod Lleol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gydag Ysgolion, Consortiwm Canolbarth y De a'i Gynghorwyr Her, yn ogystal â Swyddogion Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod canran drosglwyddo a dilyniant uchel yn cael ei chynnal rhwng darpariaeth nas cynhelir a ariannir i ddarpariaeth ysgolion a

gynhelir a rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnod Allweddol 3 a 4. Bydd yr Awdurdod Lleol ym monitro'r cynnydd ac yn cynnal adolygiad bob blwyddyn er mwyn cynnal cyfraddau trosglwyddo cadarnhaol ym Mro Morgannwg.

#### Diweddariad:

#### Llanilltud Fawr

Nid oes gan Ysgol Dewi Sant unrhyw ddisgyblion blwyddyn 6 ar hyn o bryd, ond bydd rhai ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18. Byddai data trosglwyddo Blwyddyn 6 ar gael y flwyddyn nesaf pan fydd plant yn trosglwyddo i addysg uwchradd o'r ysgol am y tro cyntaf ym mis Medi 2018.

Mae graddfeydd trosglwyddo o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn dros y 3 blynedd diwethaf yn dangos graddfa drosglwyddo o 100% i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r holl blant ym meithrinfa Ysgol Dewi Sant yn mynd ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal, mae'r raddfa drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2 dros y 3 blynedd ddiwethaf wedi bod yn 100%. Mae'r holl blant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn Ysgol Dewi Sant yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 ac yn parhau i addysg cyfrwng Cymraeg.

#### Ysgol Pen y Garth - Penarth

Pam nad yw rhai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol uwchradd Cymraeg o Ben-y-Garth?

Mae'r Pennaeth a'r Ymgynghorydd Her yn credu bod sawl rheswm pam nad yw disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg megis brodyr a chwirydd hŷn mewn ysgol cyfrwng Saesneg lleol, disgyblion yn byw o fewn pellter cerdded ym Mhenarth o ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg lleol sy'n perfformio'n dda.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn awyddus iawn i wella ei strategaeth farchnata, ac i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar hyn o bryd drwy gylchlythyr sy'n cael ei rannu gyda phob ysgol gynradd bartner. Mae'r Pennaeth hefyd wedi dechrau mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau mewn ysgolion cynradd partner.

#### Ysgolion Dwyieithog

Nid oes gan Fro Morgannwg unrhyw Ysgolion Dwyieithog.

Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio at gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Rhowch eich sefyllfa bresennol a'r targedau ar gyfer canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
123	117	161	161

Blwyddyn	Nifer yn astudio fel Dysgwyr laith Gyntaf	Nifer yn astudio 2+ cymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg	% yn astudio 2+ cymhwyster L1 neu L2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg
2015/16	128	126	98.44

Rhowch eich sefyllfa bresennol a'r targedau ar gyfer canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
123	117	161	161

Blwyddyn	Nifer yn astudio fel fel Dysgwyr laith Gyntaf	Nifer yn astudio 5+ cymhwyster L1 neu L2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg	% yn astudio 5+ cymhwyster L1 neu L2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg
2015/16	128	100	78.13

Ffynhonnell y data: Data CA4 2015

## Beth yw'r ganran o ddysgwyr 16-19 oed sy'n astudio dau bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg?

Blwyddyn	Cohort pobl ifanc 17 oed	Nifer yn astudio 2+ gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg	% yn astudio 2+ gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg
2015/16	783	49	6.26

Ffynhonnell y data: Data CA5 2015

### Rhestrwch eich pedwar prif amcan ar gyfer cyflawni pob canlyniad (rhestrwch eich amcanion fel pwyntiau bwled).

1. Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc 16-19 oed sy'n gadael yr ysgol symud ymlaen at Ddysgu Cymunedol Cyfrwng Cymraeg i Oedolion er mwyn eu helpu i gynnal a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.
2. Hyrwyddo cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro (CAVC) er mwyn cynyddu'r ganran o ddysgwyr sy'n astudio pump neu fwy o gymhwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Sicrhau bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
4. Work through 14-19 Networks and 14-19 Regional Forums to sustain and improve Welsh-medium provision over the next three years.

### Datganiad Cefnogi:

#### Cynnal a chynyddu ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 14-19 oed

Dyfeisiwyd y gwaith ysgol-i-ysgol yn y maes hwn i ymateb i angen wedi'i adnabod yn y sector Cyfrwng Cymraeg uwchradd. Mae'r rhaglen am 2016/17 yn cynnwys rhaglenni a ddyfeisiwyd i wella sgiliau ymarferwyr i addysgu drwy'r Gymraeg, a sgiliau llafaredd dysgwyr. Mae'r rhaglenni'n cynnwys:

- Gwella iaith ar gyfer Arweinwyr – gosod a gweithredu cynllun yn yr ysgol
- Sgiliau llafaredd ar draws y cwricwlwm – gwella sgiliau llafaredd a hyder disgyblion
- Hyfforddiant i athrawon anarbenigol i gynyddu faint o athrawon gwyddoniaeth sy'n gallu addysgu pynciau ar wahân i'w prif bynciau arbenigol

#### Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC)

Yn dilyn ymddeoliad y Pencampwr Dwyieithog, mae Cymraeg yn awr wedi'i rannu rhwng Cwricwlwm a Chydymffurfio yn y Coleg. Mae hyn yn disodli'r strwythur blaenorol o gael Cydlynwyr IAW a Mentor Cymraeg. Y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu a'r Dirprwy Brifathro ar gyfer y Cwricwlwm sy'n goruchwylio'r gwaith yn y ddau faes yma.

Defnyddir y SAR Cymraeg yn y Coleg i oleuo'r ddarpariaeth ôl-16 oed a chyfleoedd datblygu / cynnydd.

Fel rhan o'r ddarpariaeth alwedigaethol 14-16 oed, mae disgyblion o Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn mynychu'r coleg ddwywaith yr wythnos ar gyfer

sesiynau Gwallt a Harddwch drwy gyfrwng y Gymraeg. O dan yr un ddarpariaeth, cynigir cymorth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg mewn sesiynau nad ydynt yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. Adeiladu) – mae'r cymorth hwn yn aml yn ddefnyddiol i helpu disgyblion gyda geirfa anghyfarwydd ac yn y blaen.

#### Darpariaeth Ôl-16 Oed

Darperir cyrsiau gofal plant (CACHE) ar safleoedd y Fro drwy gyfrwng y Saesneg. Fodd bynnag mae'r cyrsiau i gyd yn cynnwys modiwl cyfrwng Cymraeg (unedau Agored Cymru) sy'n cael eu darparu'n ddwyieithog.

Mae'r ddarpariaeth laith ar Waith yn parhau i dyfu'n flynyddol yn y Coleg, ac yn y flwyddyn academaidd bresennol disgwylir y bydd tua chant o fyfyrwyr Gwallt a Harddwch, 50 o fyfyrwyr Celf, 50 o fyfyrwyr Adeiladu a 150 o fyfyrwyr Gofal Plant yn astudio laith ar Waith ar bob un o safleoedd y Fro. Darperir yr unedau hyn yn ddwyieithog yn bennaf, er bod rhai yn llwyr yn Gymraeg – gan ddibynnu ar lefel y Gymraeg sydd gan y myfyrwyr yn barod.

Cynigir lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r cwrs i bob myfyriwr a astudiodd mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu parhau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Rydym hefyd yn cynnal amryw o ddigwyddiadau drwy'r flwyddyn i sicrhau bod myfyrwyr yn cynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Y llynedd er enghraifft, mynychodd myfyrwyr Lletygarwch yn y Fro ddigwyddiad dwyieithog yng Nghaerdydd yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn y diwydiant Lletygarwch yng Nghymru. Eleni rydyn ni'n trefnu digwyddiad penodol ar gyfer y Fro (maes pwnc TBC).

Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod gan ein staff lefel addas o Gymraeg i ddarparu nifer gynyddol o gyrsiau'n ddwyieithog / drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cynnig gwersi Cymraeg i staff, mentora a chyfle i fynychu'r cyrsiau Sabothol.

Bwriadwn gynyddu ein darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd i ddod ar draws holl brif feysydd pwnc blaenoriaeth y Llywodraeth. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i sicrhau bod hyn yn digwydd a'n bod yn ateb yr angen am unrhyw alw am gyrsiau cyfrwng Cymraeg, lle mae adnoddau'n caniatáu.

#### Cyngor Bro Morgannwg

Yn 2015 astudiodd 130 allan o 142 o fyfyrwyr Blwyddyn 11 (91.5%) yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (YGBM) bump neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn 8.3% o'r holl gohort Awdurdod Lleol o 1560 o fyfyrwyr.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg 14-19 yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid Grant Gwella Addysg 14-19 oed. Mae cyllid ychwanegol yn ei le i sicrhau dysgu galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg hefyd yn derbyn cymorth ychwanegol wedi'i frocra drwy Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Cyngor Bro Morgannwg (YEPF) ac mae ganddi Weithiwr Cymorth Ieuenctid ar y safle i ddarparu ymyriadau i bobl ifanc a allai fod mewn perygl o fod yn NEET.

Mae adran Diwylliant a Dysgu Cymunedol Bro Morgannwg am gael mwy o gyswllt â siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol yn 16-19 oed er mwyn cynnig cymorth iddynt gyda dysgu sgiliau gwaith a chwilio am waith, er enghraifft drwy'r rhaglen *Get Back on Track* drwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae swydd y Swyddog Iaith Gymraeg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro (CAVC) bellach yn cael ei hariannu ar y cyd gan CAVC a WEA Cymru gyda briff i dywys a chynorthwyo ar faterion Cymraeg, yn amrywio o weithredu'r safonau iaith newydd, gweithio i wella ethos Cymraeg y Coleg ac ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Mae grwpiau ffocws cyfrwng Cymraeg yn parhau i gwrdd i hysbysu'r CAVC o syniadau gan fyfyrwyr ar sut orau i annog pobl ifanc i barhau i ddefnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Canran a nifer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a astudiodd ddau bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer lefel AS a lefel A yn 2014/15 a 2015/16:

<b>Blwyddyn</b>	<b>2014-15</b>	<b>2015-16</b>
<b>Nifer y myfyrwyr</b>	129	164
<b>%</b>	100	100

Dylid nodi y bydd angen monitro penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno'r grant 14-19 ynghyd â deg grant arall i sicrhau y gwireddir dyheadau'r Fro o ran cynnal y perfformiad presennol.

Mae'r rhwydwaith 14-19 yn cydweithio i sicrhau bod dysgwyr yn mynd ar gyrsiau addas, yn enwedig pobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET. Gall pobl ifanc ddefnyddio gwasanaethau cyflogadwyedd, gwaith tîm a gwasanaethau cyhoeddus drwy'r Coleg Paratoi Milwrol a chyrtsiau cerbydau modur, gwallt a harddwch ac adeiladu gyda Choleg Caerdydd a'r Fro (CAVC).

#### Grant teithio i fyfyrwyr 16-19 oed

Mae disgyblion rhwng 16-19 oed hefyd yn gymwys am grant teithio os ydynt yn mynychu'r sefydliad addysg bellach agosaf sydd wedi'i ariannu'n gyhoeddus ac yn darparu'r cwrs y maent eisiau ei astudio. Lle mai'r cwrs hwnnw yw'r agosaf sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yna byddai cludiant yn cael ei ystyried ar sail polisi ar yr adeg y gwneir y cais.

Tachwedd 2017

#### **Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC)**

Rhennir y Gymraeg yn CAVC yn ddau faes: Cwricwlwm a chydymffurfiaeth Cymraeg.

Mae Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu ac Is-bennaeth dros y Cwricwlwm yn goruchwyllo'r gwaith yn y ddau faes hyn ac mae cydlynnydd y cwricwlwm Cymraeg a swyddog y Gymraeg yn gyfrifol am gynllunio a threfnu dyddiol.

Defnyddir Adroddiad Hunanasesiad Cymraeg CAVC i lywio darpariaeth ôl-16 a cyfleoedd symud ymlaen.

#### **Darpariaeth cyn 16**

Yn rhan o'r ddarpariaeth Alwedigaethol, mae disgyblion o Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn mynychu'r coleg unwaith yr wythnos am sesiynau gwallt a

harddwch yn Gymraeg. Yn rhan o'r un ddarpariaeth, mae dysgwyr Bro Morgannwg yn cael cymorth Cymraeg mewn meysydd eraill (er enghraifft Adeiladu), lle bod cymorth yn y dosbarth i annog a chefnogi'r dysgwyr i gwblhau eu gwaith yn Gymraeg.

Mae gweithio gyda phartneriaethau Cymraeg yn creu cyfleoedd i ddysgwyr i gael gwaith gwirfoddol ac a thâl trwy gynorthwyo mewn gweithdai hanner tymor Cymraeg, arddangos a rhannu eu sgiliau newydd gyda phlant ysgolion cynradd lleol.

### **Darpariaeth cyn 16**

Cynigir sesiynau Gofal Plant CACHE lefel 2 yn Gymraeg sy'n symud ymlaen at sesiynau Gofal Plant CACHE lefel 3 yn ddwyieithog.

Mae cymhwyster Iaith ar Waith CBAC yn parhau i dyfu bob blwyddyn ac mae bellach yn cael ei gynnig yn 11 ardal gwricwlwm i 925 o ddysgwyr (ffigurau Tachwedd 2017). Cynigir y cymhwyster hwn i ddysgwyr Cymraeg a di-Gymraeg ac fe'i teilwyr i fodloni eu hanghenion pwnc. Mae hyn yn galluogi pob dysgwr i ddysgu geirfa a thechnoleg allweddol sy'n bwnc penodol a fydd yn eu cefnogi yn eu dewis weithle.

Mae pob dysgwr sy'n astudio'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn mynychu lleoliadau gwaith Cymraeg yn rhan o'i gwrs.

Cynigir i weddill ein dysgwyr y cyfle i fynychu lleoliadau gwaith Cymraeg ym mhob maes lle bo'n bosibl.

Cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau Cymraeg a dwyieithog trwy'r flwyddyn i alluogi dysgwyr i barhau i wella eu sgiliau Cymraeg a hefyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision bod yn ddwyieithog yn y gweithle.

Enghraifft o ddigwyddiad diweddar yw cynhadledd chwaraeon dwyieithog y cymerodd mwy na 80 o ddysgwyr ran ynnddi trwy roi amrywiaeth o gyflwyniadau dwyieithog a chynnal gweithgareddau ymarferol gyda phum siaradwr Cymraeg rhyngwladol enwog a dynnodd sylw at pha mor bwysig y mae bod yn ddwyieithog yn eu gyrfaoedd.

Mae'r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth yn weithgaredd rheolaidd yn ein rhaglen ddatblygu staff lle y cynhelir sesiynau yn fewnol ac yn allanol. Cynhelir sesiynau i sicrhau ein bod yn cefnogi datblygu Cymraeg ein staff a diweddarau holl ofynion diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rhan o'r project peilot Gweithio Cymraeg ar hyn o bryd. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i ni i diwtor Cymraeg wella sgiliau 15 aelod o staff academiaidd am chwe mis. Bydd hyn yn ategu ac ymestyn ein darpariaeth ddwyieithog yn barod ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-19.

Cefnogir y cynnydd yn ein darpariaeth yn llawn gan Ysgol Bro Morgannwg a phartneriaethau Cymraeg allanol. Mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i ateb unrhyw alwadau cyfrwng Cymraeg yn ein cwricwlwm pan fo digon o adnoddau. Rydym hefyd yn gallu cryfhau ac amlygu cyfleoedd cyflogaeth i'n dysgwyr yn ystod ac ar ôl eu hastudiaethau.

## **Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled gan gyfeirio at Atodiad 1 ar gyfer y data yr ydych am gynnwys).**

### **Amcanion:**

1. Parhau i fonitro a gwerthuso safonau llythrennedd ac i ddarparu cymorth a hyfforddiant yn ôl anghenion sydd wedi'u hadnabod.
2. Darparu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n byw ym Mro Morgannwg i gwrdd â hawliau'r Siarter leuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Penodi arbenigwyr i arwain ar y Gymraeg ac i arwain ar y cwricwlwm a'r continwmm Cymraeg newydd; a chyfleoedd cymdeithasol ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
4. Darparu cyfleoedd hyfforddi ehangach i wella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a pharhau i gefnogi model hwb lle mae ymarferwyr Cymraeg ail iaith arbenigol yn rhannu eu hymarfer / hyfforddi eu cyd-ymarferwyr.

### **Datganiad cefnogol**

Mae codi safonau yn Gymraeg / llythrennedd Cymraeg yn flaenoriaeth wella benodol yng nghynllun busnes y Consortiwm. Mae'n golygu bod sicrhau y bydd canlyniadau dysgwyr yn Gymraeg yn gwella'n ffactor bwysig pan fydd y Consortiwm yn cynllunio hyfforddiant mewn ysgolion hwb a phob agwedd arall ar ei waith gwella ysgolion.

Mae canlyniadau ar gyfer Cymraeg wedi gwella'n arw ar draws y rhanbarth ers 2012, gyda gwelliannau arbennig ac uwch na'r lefelau disgwylidig rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA3. Ers 2012/13 neidiodd ganran y disgyblion a enillodd radd A-C mewn TGAU Cymraeg o bron i naw pwynt canran i 85.9%.

Bydd gwelliannau pellach yn siŵr o ddod drwy barhau i ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr, a ddyfeisiwyd i:

- Wella sgiliau iaith yr ymarferwyr eu hunain;
- Gwella'r addysgu e.e. drwy ddarparu hyfforddiant ar y cynllun NaiD (asesiad ar gyfer dysgu, cinio cynnydd, datblygu dysgu rhyng-ddibynnol, dysgu seiliedig ar holi, datblygu gweithgareddau);
- Gwella'r arweinyddiaeth drwy ddarparu rhaglenni arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer Penaethiaid newydd ac arweinwyr canol; a
- Gwreiddio arferion addysgu Cymraeg llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar draws y rhanbarth (rhaglenni a gynigir gan ysgolion lle mae eu darpariaeth Cymraeg Ail iaith yn dda).

Bydd y Consortiwm hefyd yn:

- Parhau i gefnogi rhwydweithiau o ysgolion cyfrwng Cymraeg i rannu a datblygu arferion da; a
- Gweithio gyda'r rhwydwaith arloesi / hybiau i ddatblygu'r Continwmm Cymraeg a sicrhau bod rhaglen ddysgu broffesiynol y Consortiwm wedi'i dyfeisio i ymateb i anghenion datblygu'r gweithlu yng nghyswllt y cwricwlwm newydd.

Ar hyn o bryd (Medi 2016) mae'r Consortiwm wrthi'n recriwtio Pennaeth presennol i gefnogi Siarter Iaith Cymru a'r prosiect Cefnogi Arferion Pobl Ifanc.

### **Sut y byddwch yn gwella safonau llythrennedd iaith Gymraeg?**

Mae'r Awdurdod Lleol ynghyd â Chonsortiwm Canolbarth y De (CSC) yn ymrwymedig i godi safonau llythrennedd ar draws pob ysgol ac wedi datblygu ystod o strategaethau i wella llythrennedd disgyblion yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r strategaethau'n cynnwys:

- Mabwysiadu dull penodol o ddarparu hyfforddiant llythrennedd i ymarferwyr;
- Darparu ymyriadau targed i ddisgyblion 7-14 oed sy'n tangyflawni mewn darllen ac ysgrifennu;
- Cau'r bwlch rhwng y rhywiau; a
- Cau'r bwlch tlodi.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i:

- Fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth gan y CSC a swyddogion allweddol;
- Rhoi mynediad at raglen hyfforddiant gynhwysfawr i wella sgiliau ymarferwyr o ran dysgu ac addysgu llythrennedd; ac
- Ymateb i unrhyw raglenni sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru i wella sgiliau llythrennedd disgyblion;

Mae holl ysgolion y CSC bellach yn rhan o Grwpiau Gwella Ysgolion (SIG). Mae grwpiau SIG yn adnabod meysydd sydd angen eu gwella ar gyfer grwpiau o ysgolion gan gynnig neu gomisiynu cymorth i sicrhau gwelliannau.

Bydd y meysydd sydd angen eu gwella'n cynnwys llythrennedd Cymraeg lle mae'r ysgolion yn cytuno bod hwn yn faes datblygu. Bydd y SIG yna'n comisiynu'r cymorth gan hybiau gwella a chanolfannau arbenigol o fewn CSC. Mae'r hybiau gwella hyn yn ysgolion CSC eu hunain lle mae arferion / ymarferwyr da wedi cael eu hadnabod yn y maes sydd angen ei wella.

Mae'r hybiau cyfrwng Cymraeg yn cynnwys Partneriaeth Bro Morgannwg.

Mae'r hybiau'n datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr ar draws y system. Ar hyn o bryd maen nhw'n cynnig cymorth i ysgolion eraill i gryfhau'r addysgu a'r dysgu, ac arferion arweinyddiaeth; dyfeisiwyd eu rhaglenni i ymateb i anghenion ymarferwyr / ysgolion.

Mae'r CSC hefyd yn cefnogi ffederasiwn cymharol newydd o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (sy'n cynnwys yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws pob un o'r pum awdurdod) a'r rhwydwaith uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd y rhain yn gweithio i adnabod anghenion cymorth y sector ac yn comisiynu ysgolion hwb / modelau cymorth CSWC eraill i ddarparu'r cymorth hwnnw. Mae amryw o'r ysgolion eu hunain eisoes yn rhai hwb ac yn cynnig rhaglenni hyfforddiant a chymorth drwy ymarferwyr i ysgolion eraill ar draws y rhanbarth.

Mae'r CSC wedi ymrwymo £5k i wella canlyniadau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ar lefel 5 yn CA2, yn enwedig mewn ysgrifennu.

Mae dau Swyddog Cymraeg mewn Addysg (WEO) a leolir yn ganolog yn y Consortiwm hefyd yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg; ac mae Cynghorydd Cymraeg Cymwys am Oes (athro ysgol uwchradd ar secondiad) mewn swydd i weithio â'r sector uwchradd cyfrwng Cymraeg i gynnig cymorth gyda'r manylebau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a llythrennedd newydd.

Sefydlwyd tair ysgol hwb Cymraeg Ail Iaith uwchradd gan gynnwys Ysgol Gyfun y Bont Faen (Bro Morgannwg) sydd bellach yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau wedi'u hanelu at ymarferwyr Cymraeg Ail Iaith uwchradd. Sefydlwyd ysgolion hwb Cymraeg Ail Iaith cynradd hefyd.

Mae wyth swyddog WEO yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i helpu ymarferwyr i hyrwyddo safonau rhagorol o ran addysgu a dysgu a llythrennedd mewn Cymraeg Ail Iaith. (Targedir yr ysgolion yn ôl angen - system Coch Oren Gwyrdd (RAG) WEO).

**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.**

**Canlyniad 5+ Cyfnod Sylfaen a Chanlyniad 6+ Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC)**

Dengys y tabl canlynol ganran y disgyblion a gyflawnodd, rhwng 2011-16, o leiaf Ganlyniad 5 Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn ail flwyddyn asesu Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar draws Cymru. Mae'r ffigyrau'n dangos gwelliant ac yn cynnal y bwllch, gyda pherfformiad yr Awdurdod Lleol yn uwch na'r cyfartalog ar draws Cymru.

**Ffig. 1a**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Cohort - LCW</b>	<b>LCW O5+</b>	<b>% LCW 5+</b>
<b>2015/16</b>	243	230	94.65%

<b>O5+</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
<b>Bro M.</b>	91%	92%	97%	96.2%	94.65%
<b>Cymru</b>	86%	87%	90%	91.3%	90.7%

I gyflawni'r targedau Canlyniad 5+ canlynol mewn Cymraeg (LLC) yn y Cyfnod Sylfaen:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

Targedau	15/16	16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
<b>Canlyniad 5+ (LLC) yn y Cyfnod Sylfaen</b>	95.2%	94.9%	93.6%	93.6%	93.6%

### **Q5+**

Mae'r cyrhaeddiad o 94.7% yn 3.95% yn uwch na'r cyrhaeddiad cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi chwech allan o'r saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg naill ai yn Chwarter 1 neu 2 y Meincnodau Cenedlaethol. Mae'r cyrhaeddiad yn rhoi Bro Morgannwg yn bumed allan o'r 22 awdurdod lleol ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen.

### **Ffig. 1b**

O6+	2012	2013	2014	2015	2016
<b>Bro M.</b>	27.5%	27.8%	35.8%	45.4%	45.7%
<b>Cymru</b>	24.8%	29.3%	32.5%	36.9%	36.2%

I gyflawni'r targedau Canlyniad 5+ canlynol mewn Cymraeg (LLC) yn y Cyfnod Sylfaen:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

Targedau	16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
<b>Canlyniad O6+ (LLC) yn y Cyfnod Sylfaen</b>	44.5%	40.4%	40.4%	40.4%

Gwelir tuedd gyson ar i fyny o ran cyrraedd y canlyniad uwch, sydd eleni'n sylweddol uwch na'r cyrhaeddiad cenedlaethol. Mae'r perfformiad hwn yn rhoi pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch na'r canolrif yn y Tabl Meincnodau Cenedlaethol. Mae'r cyrhaeddiad yn rhoi Bro Morgannwg yn ail allan o'r 22 awdurdod lleol ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen.

Dengys y tabl isod ganran y dysgwyr a gyrhaeddodd, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, o leiaf Lefel 4 yn Gymraeg ar sail asesiad athro. Ers pum mlynedd bellach mae canlyniadau'r Awdurdod Lleol wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartalog cenedlaethol, ac er i'r perfformiad ddirywio ychydig yn 2011 mae lefel cyrhaeddiad y disgyblion wedi bod yn uchel. Caiff y canlyniadau hyn eu monitro'n flynyddol gan gynghorydd herio'r ysgol unigol a chan swyddog arwain strategol y Gymraeg y CSC.

## Lefelau 4 a 5 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA2

Ffig. 2a

Blwyddyn	Cohort - NC Bl. 6	Cym L4+	% Cym L4+
2015/16	167	160	95.81

L4+ CA2	2012	2013	2014	2015	2016
Bro M.	89.9%	93.3%	95.9%	95.9%	95.8%
Cymru	84%	86.7%	88.4%	90.5%	90.8%

I gyflawni'r targedau Lefel 4+ canlynol mewn Cymraeg yn CA2:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

15/16	16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
95.4%	95.6%	97.0	96.6%	96.6%

Ffig. 2b

Lefel 5+ CA2	2012	2013	2014	2015	2016
Bro M.	33.8%	41.5%	48.5%	48.5%	56.3%
Cymru	26.6%	30.4%	33.9%	38%	38%

I gyflawni'r targedau Lefel 5+ canlynol mewn Cymraeg yn CA2:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

15/16	16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
56.3%	48.9%	51.5%	55.7%	55.7%

Ffig. 2a a 2b:

Mae cyrhaeddiad o 95.8% yn cwrdd â'r targed ac yn bum pwynt canran yn uwch na'r cyrhaeddiad cenedlaethol. Cyrhaeddiad Bro Morgannwg yw'r trydydd uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mewn cymhariaeth, ar y Lefel 5+ uwch mae cyflawniad y Fro sef 56.3%, yn gynydd o 7.8% ac yn 18.3 pwynt canran yn uwch na'r cyrhaeddiad cenedlaethol ac yn rhoi pedair allan o'r pum ysgol naill ai yn Chwarter 1 neu 2 y Meicnodau Cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi'r awdurdod yn 1af allan o'r 22 awdurdod lleol.

### Lefelau 5, 6 a 7 Cyfnod Allweddol 3

#### Ffig. 3a, b ac c:

#### Ffig. 3a

Blwyddyn	Cohort - NC Bl. 9	Cym L5+	% Cym L5+
2015/16	118	115	97.46

Ffynhonnell y data: NDC 2016

L5+	2012	2013	2014	2015	2016
YGBM	83.8%	91.2%	88.3%	91.9%	97.46%
Cymru	84.2%	87.6%	90.1%	90.9%	92.41%

I gyflawni'r targedau Lefel 5+ canlynol mewn Cymraeg yn CA3 (YGBM):

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

13/14*	14/15*	15/16*	16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
85%	96%	93.4%	96.3%	97.0%	93.1%	93.1%

#### Lefel 5

Mae'r cyrhaeddiad o 97.46% yn gynydd o 5.56 pwynt canran mewn cymhariaeth â 2015. Mae hyn yn rhoi Bro Morgannwg yn ail allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

#### Ffig. 3b

Lefel 6 CA3	2012	2013	2014	2015	2016
YGBM	43%	50%	55%	66.9%	67.8%
Cymru	41%	46%	53%	54.7%	57.2%

#### Lefel 6+

Ar 67.8% mae hyn yn gynydd pellach ers y llynedd ac yn sylweddol uwch na'r cyfartalog cenedlaethol.



**Ffig. 3c**

Lefel 7 CA3	2012	2013	2014	2015	2016
YGBM	9%	14%	13.1%	18.6%	16.1%
Cymru	9.8%	12.4%	14.95%	17.4%	18.3%

**Lefel 7+**

O ganlyniad i gwmp o 2.5 pwynt canran i 16.1% mae'r ysgol wedi disgyn o dan y cyfartalog cenedlaethol, er yn unol â chyfartalog y CSC.

**Lefel 2 Cymraeg Cyfnod Allweddol 4****Ffig. 4:**

Blwyddyn	Nifer yn astudio fel Dysgwyr Iaith Gyntaf	L2 Dysgwyr Iaith Gyntaf	% L2 Dysgwyr Iaith Gyntaf
2015/16	128	99	77.34

Ffynhonnell y data: Data CA4 2016

TGAU Lefel 2 CA4	2012	2013	2014	2015	2016
Bro M. (YGBM)	73.3%	82.6%	78.9%	77.54%	77.34%
Cymru	73.8%	73.6%	73.69%	75%	78%

I gyflawni'r targedau Lefel 5+ canlynol mewn Cymraeg yn CA3 (YGBM)

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

15/16	16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
78%	79.7%	82.9%	78.3%	78.3%

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 a enillodd radd A\*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn 2012-2016 wedi eu cynnwys yn y data ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a roddir yn y tabl uchod. Mae'r cyrhaeddiad o 77.54% fyfryn yn is na'r cyfartalog cenedlaethol ac yn debyg i gyrhaeddiad y cohort blaenorol. Yn unol â'r model CSWC, erbyn hyn cynigir arweinyddiaeth strategol gan yr ysgolion hwb.

### Diweddariad:

Mae'r targedau wedi'u cytuno ar y cyd ag Ymgynghorydd Her yr ysgol. Mae'r ffigyrau ar gyfer 19/20 yn adlewyrchu targedau 18/19. Mae hyn gan na wnaeth y Consortiwm ofyn i'r ysgol am dargedau 19/20, yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.

Mae targed CA4 ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf yn gostwng o **82.9%** yn 17/18 i **78.3%** yn 18/19. Dros y ddwy flynedd hyn mae cynnydd mawr yn nifer y cohort CA4 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae'n neidio o **117** o ddisgyblion CA4 yn 17/18 i **161** o ddisgyblion CA4 yn 18/19. Mae hyn yn sgil cynnydd yn nifer y disgyblion mewn 3 ysgol yn bennaf:- Ysgol Gwaun y Nant, Ysgol Pen y Garth ac Ysgol Sant Baruc. Mae'r cynnydd yng ngharfan CA4 yr ysgol yn cael ei gynnal hefyd yn 19/20. Tybir fod y gostyngiad o ran % yn y targedau yn ymwneud â'r cynnydd uchel yn nifer y garfan.

### Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Mae 100% o ddisgyblion blwyddyn wedi cael eu rhoi i mewn i'r cwrs TGAU Cymraeg Iaith gyda'r rhan fwyaf ohonynt ar Lefel 2. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi cael eu cofrestru ar gyfer Lefel Mynediad yn 2017. Mae'r targedau CA4 yn gostwng yn 2017/18 a 2018/19 oherwydd y cynnydd cyflym mewn disgyblion y bydd yr ysgol yn dal i brofi (ac felly'n arwain at estyniad arfaethedig o'r ysgol o 2019 ymlaen), pryder cenedlaethol ynglŷn â'r rhwystrau graddfeydd a beth sy'n gwneud gradd C dan y cwricwlwm/cynlluniau gwaith newydd. Bydd gan yr adran a'r Ymgynghorydd Her gyfleoedd i adolygu'r targedau penodol yn ystod tymor yr hydref.

Y blaenoriaethau rhanbarthol yn y maes hwn, yn benodol ar gyfer ysgolion "coch" neu "oren" o dan y system categoreddio genedlaethol, yw:

- ansawdd yr addysgu
- llythrennedd, rhifedd a phresenoldeb
- hunanwerthuso / cynllunio gwelliannau
- arweinyddiaeth

Mae rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer Penaethiaid profiadol ac awyddus hefyd wedi cael eu datblygu. Cafodd y rhain eu datblygu i ddechrau yn Saesneg mewn cysylltiad â'r Sefydliad Addysg (IoE) yn Llundain. Mae'r Consortiwm yn awr yn ystyried datblygu rhaglen cyfrwng Cymraeg yr un mor heriol; mae rhai ymarferwyr cyfrwng Cymraeg wedi mynychu darpariaeth yr IoE.

Bydd y rhain yn gweithio i adnabod anghenion cymorth y sector ac yn comisiynu ysgolion hwb / modelau cymorth CSWC eraill i ddarparu'r cymorth hwnnw. Mae amryw o'r ysgolion eu hunain eisoes yn rhai hwb ac yn cynnig rhaglenni hyfforddiant a chymorth drwy ymarferwyr i ysgolion eraill ar draws y rhanbarth.

Bydd swyddog arwain strategol y Gymraeg y CSC a Swyddogion Cymraeg mewn Addysg sy'n gyfrifol am Gymraeg Iaith Gyntaf yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn parhau i weithio ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr Awdurdod, ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, i helpu i godi safonau yn Gymraeg a llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Bydd yr Awdurdod Lleol a'r CSC yn parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi data ysgolion, data cymharol, adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth gan y Cynghorwyr Herio a swyddogion allweddol.

Bydd swyddog arwain strategol y Gymraeg y CSC a Swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau bod continwmm iaith rhwng y cyfnodau allweddol cynradd fel bod gan ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i gael mynediad i'r cwricwlwm ar draws y Cyfnodau Allweddol.

Bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg drwy gydol y cyfnod cynradd, a sgiliau iaith Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2, drwy ddefnyddio asesu i oleuo'r dysgu; drwy osod targedau heriol a thrwy fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

### **Targedau**

Ar hyn o bryd mae'r CSC yn dadansoddi'r canlyniadau / data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau awdurdod lleol rhanbarthol ac unigol yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol. Mae'r Consortiwm a'i awdurdodau lleol yn benderfynol o osod targedau cadarn ond heriol ar gyfer y dyfodol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a'u cyfathrebu i'r partneriaid ar ddechrau mis Rhagfyr. Bydd y partneriaid wedyn yn gallu dadansoddi'r targedau a herio unrhyw rai nad ydynt yn ymddangos i fod yn ddigon heriol ar lefel yr Awdurdod Lleol / Consortiwm.

### **Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail iaith.**

Mae canran y dysgwyr, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, a gyrhaeddodd lefel 4 o leiaf yn asesiad yr athro o Gymraeg Ail iaith wedi cynyddu'n sylweddol dros y chwe blynedd diwethaf, ar lefel leol a chenedlaethol. Yn 2016 roedd perfformiad Bro Morgannwg mewn Cymraeg Ail iaith yn parhau i wella ac yn uwch na'r cyfartalog cenedlaethol:

**Ffig. 5**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Cohort - NC BI. 6</b>	<b>Cym L4+</b>	<b>% Cym L4+</b>
<b>2015/16</b>	1305	1053	80.69

<b>CA2</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
<b>Bro M.</b>	57.9%	69.1%	71.6%	77.8%	79.4	80.69%
<b>Cymru</b>	51.4%	61.6%	67.7%	73.1%	76.1	76.1%

Mae'r hyfforddiant a'r cymorth a roddwyd wedi gwella hyder athrawon i fonitro a herio cynnydd eu disgyblion mewn Cymraeg Ail iaith.

I gyflawni'r targedau Lefel 4+ canlynol mewn Cymraeg Ail iaith yn CA2:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

<b>Targedau Lefel 4+ mewn Cymraeg Ail iaith yn CA2</b>			
<b>16/17*</b>	<b>17/18*</b>	<b>18/19*</b>	<b>19/20*</b>
86.2%	85.9%	84.0%	84.0%

**Beth yw canran y dysgwyr, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 yn asesiad yr athro o Gymraeg Ail Iaith?**

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 yn asesiad yr athro o Gymraeg Ail Iaith yn parhau i ddangos tuedd i wella gyda gwelliant sylweddol o'i gymharu â 2013-14. Mae cyfradd wella'r Awdurdod Lleol yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartalog cenedlaethol. Caiff perfformiad disgyblion ei fonitro'n agos gan Gonsortium Canolbarth y De. Caiff ysgolion eu herio i godi safonau fel rhan o strategaethau gwella'r Awdurdod Lleol. Yn 2016 roedd Bro Morgannwg yn parhau i wella ei pherfformiad o ran Cymraeg Ail Iaith yn CA3 gyda 86.77% o'r cohort yn cyrraedd L5+ sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartalog cenedlaethol.

**Ffig. 6**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Cohort - NC BI. 9</b>	<b>Cym L5+</b>	<b>% Cym L5+</b>
<b>2015/16</b>	1285	1115	86.77

Ffynhonnell y data: NDC 2016

<b>Lefel 5+</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
<b>Bro M.</b>	70%	71%	78%	82%	83%	86.77%
<b>Cymru</b>	64.6%	68.2%	73%	78%	81%	81.2%

I gyflawni'r targedau Lefel 5+ canlynol mewn Cymraeg Ail Iaith yn CA3:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

<b>Targedau Lefel 5+ mewn Cymraeg Ail Iaith yn CA3</b>			
<b>16/17*</b>	<b>17/18*</b>	<b>18/19*</b>	<b>19/20*</b>
89.7%	89.2%	91.0%	91.0%

**Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill gradd A\*-C yn y Cwrs TGAU Llawn mewn Cymraeg Ail Iaith?**

**Ffig. 7** – Rhoddir cyrhaeddiad dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y Cwrs TGAU Llawn mewn Cymraeg Ail laith yn y tabl isod:

Blwyddyn	Nifer yn astudio Cym. Ail laith	L2 Cym. Ail laith	% L2 Cym. laith Gyntaf
2015/16	738	635	86.0%

A*-C	2012	2013	2014	2015	2016
Cymraeg Ail laith	A*-C	A*-C	A*-C	A*-C	A*-C
Bro M.	81%	77%	79%	79%	86%
Cymru	74%	77%	78%	80%	80%

I gyflawni'r targedau Lefel 2 canlynol mewn TGAU Cymraeg Ail laith (Cwrs Llawn) yn CA4:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

L2 mewn TGAU Cymraeg Ail laith (Cwrs Llawn) yn CA4			
16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
86%	83%	81%	79%

**Ffig. 8** – Rhoddir nifer y dysgwyr wnaeth sefyll y Cwrs TGAU Llawn mewn Cymraeg Ail laith fel canran o'r cohort yn y tabl isod:

	2012	2013	2014	2015	2016
<b>Cohort</b>	1462	1511	1456	1418	1383
<b>Nifer</b>	452	616	627	752	738
<b>%</b>	31%	41%	43%	53%	53%

Yn 2015, dangosodd y data dros dro gynnydd sylweddol o 10% yng nghyfran y disgyblion wnaeth sefyll y Cwrs Llawn mewn Cymraeg Ail laith.

**Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill gradd A\*-C yn y Cwrs TGAU Byr mewn Cymraeg Ail laith?**

**Ffig. 9** – Rhoddir cyrhaeddiad dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn y Cwrs TGAU Byr mewn Cymraeg Ail laith yn y tabl isod:

Blwyddyn	Nifer yn astudio Cym. Ail laith	L2 Cym. Ail laith	% L2 Cym. laith Gyntaf
2015/16	505	206	40.8%

A*-C	2011	2012	2013	2014	Ffigur dros dro 2015	2016
Bro M.	49%	42%	45%	55%	48%	41%
Cymru	47%	49%	51%	51%	51%	52%

Dengys y data dros dro ar gyfer 2015 gwmp yng nghanran y disgyblion a enillodd A\*-C, o 55% yn 2014 i 48% yn 2015.

I gyflawni'r targedau Lefel 2 canlynol mewn TGAU Cymraeg Ail laith (Cwrs Byr) yn CA4:

\*Dylid nodi bod pob targed yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy gydol bywyd y cynllun.

L2 mewn TGAU Cymraeg Ail laith (Cwrs Byr) yn CA4			
16/17*	17/18*	18/19*	19/20*
41%	45%	dd/b	dd/b

*\*Ni fydd ar gael fel cymhwyster yn 2018/19 na 2019/20*

**Canran o'r cohort na chofrestrodd ar gyfer y Cwrs Llawn na'r Cwrs Byr mewn Cymraeg Ail laith**

Blwyddyn	Cohort	Heb gofrestru	%
2014/15	1418	265	18.69

Ffynhonnell y data: Data CA4 2015

## **Faint o ddysgwyr sy'n sefyll y Cwrs TGAU Byr mewn Cymraeg Ail Iaith fel canran o'r cohort?**

**Ffig. 10** – Rhoddir nifer y dysgwyr wnaeth sefyll y Cwrs TGAU Byr mewn Cymraeg Ail Iaith fel canran o'r cohort yn y tabl isod:

	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013*</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
<b>Cohort</b>	1520	1462	1511	1456	1418	1383
<b>Nifer</b>	724	637	649	497	402	505
<b>Canran</b>	48%	44%	43%	34%	28%	37%

### **Cymorth ar gyfer Cymraeg Ail Iaith**

Sefydlwyd tair ysgol hwb Cymraeg Ail Iaith uwchradd sydd bellach yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau wedi'u hanelu at ymarferwyr Cymraeg Ail Iaith uwchradd. Mae Bro Morgannwg yn parhau i weithio gyda Chonsortium Canolbarth y De i sicrhau bod dysgwyr yn elwa o bob cyfle i astudio ac ennill cymhwyster yn yr Iaith Gymraeg.

Mae Swyddog Cymraeg mewn Addysg y CSC yn parhau i gefnogi ysgolion gyda'r gwaith o gynllunio a darparu datblygiad Iaith Gymraeg a Chymraeg fel Ail Iaith er mwyn codi lefelau cyrhaeddiad. Bydd cymorth parhaus ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a CA2 ar ffurf cymorth ysgol-i-ysgol, addysgu tîm / gwersi enghreifftiol yn y dosbarth a hefyd drwy hyfforddiant i staff yn ystod sesiynau gyda'r hwyr neu ar ddiwrnodau cau.

### **Diweddariad:**

Mae Consortium Canolbarth y De yn credu y bydd y TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd yn sicr yn arwain at newid cyfeiriad, gan na fydd y cwrs byr yn bodoli bellach a bydd disgwyl i bob ysgol addysgu'r cwrs llawn.

### **Cynradd:**

Mae'r wefan Cymraeg Ail Iaith ([www.cscjies.org.uk](http://www.cscjies.org.uk)) yn cynnwys continwmm iaith, cynllun gwaith a'r holl adnoddau cysylltiedig. Mae yna hefyd sianel YouTube newydd (CSC Welsh in Education) sy'n cynnwys caneuon, llyfrau i'w darllen yn uchel a phortffolio ar-lein o gliopiau llafar a darllen ar wahanol lefelau.

Mae wyth swyddog WEO yn parhau i weithio yn y Consortium (pedwar mewn ysgolion ym Mro Morgannwg).

Mae holl ysgolion cynradd Bro Morgannwg yn derbyn cymorth; mae lefel y cymorth yn amrywio yn ôl angen yr ysgol. Mae swyddogion WEO yn categoreiddio ysgolion cynradd yn ôl system RAG Cymraeg Ail Iaith. Mae ysgolion yn y categori "gwyrd" neu "felyn" yn parhau i dderbyn cymorth ond anogir cydlynwyr Cymraeg Ail Iaith i wneud Aseidiadau Gwrando ar Ddysgwyr, teithiau cerdded dysgu ac archwiliadau Helpwr Heddiw'n annibynnol i hyn. Mae aelodau WEO wedi creu taflenni asesu'n cynnwys canllawiau y gellir eu dilyn i lunio barn ac i gynllunio'r ffordd ymlaen. Mae ysgolion coch neu oren yn rhai lle mae ymyriadau ystafell ddosbarth yn briodol oherwydd bod angen gwella safonau mewn meysydd penodol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae Estyn wedi adnabod bod darllen yn wendid mewn nifer o ysgolion. Mae'r tîm WEO wedi cynhyrchu pecyn darllen newydd i helpu ysgolion i godi safonau mewn darllen. Mae sesiynau hyfforddi'n cael eu cynnig mewn cyfarfodydd staff, cyfarfodydd clwstrw a hefyd fel un o'n digwyddiadau canolog.

### Uwchradd

Mae'r tair ysgol hwb Cymraeg Ail Iaith newydd yn cynnig rhaglenni hyfforddiant. Mae yna hefyd gymorth pwrpasol am ddim ar gael i ysgolion uwchradd yn y categorïau coch neu oren.

Bydd yr Awdurdod Lleol a'r CSC yn parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth drwy ddadansoddi data ysgolion, data cymharol, adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth gan Uwch Gynghorydd Herio'r CSC / Swyddog Arwain y Fro ar Wella Ysgolion.

### **Rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr o bob oed ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.**

Mae Swyddogion Cymraeg mewn Addysg y CSC yn gweithio'n agos ag ysgolion i wella eu capasiti eu hunain i godi proffil y Gymraeg a safonau cyrhaeddiad ymhellach, drwy ddarparu'r cymorth canlynol:

- Dangos i athrawon sut i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, yn ystod gwersi enghreifftiol mewn ysgolion cynradd;
- Annog y strategaeth Helpwr Heddiw, gyda disgyblion yn gyfrifol am roi cyfarwyddiadau a gorchmynion i'w cyd-ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cyfrannu mewnbyn ar ddatblygiad Iaith Gymraeg i gyrsiau Cyfnod Sylfaen;
- Cynhyrchu dogfen Cymraeg Bob Dydd sy'n dangos banciau iaith i'w defnyddio mewn ysgolion (copi ar wikispace);
- Darparu banc o arwyddion Cymraeg i'w defnyddio ar gyfer arddangos (copi ar wikispace);
- Darparu hyfforddiant i athrawon (cyrsiau Cymraeg dwys);
- Darparu hyfforddiant i Swyddogion Cymorth Dysgu (LSO) (cyrsiau Cymraeg dwys).
- Yr holl adnoddau a greir gan y Swyddogion Cymraeg mewn Addysg (WEO) i fod ar gael yn electronig drwy wefan WEO.

Cynigir hyfforddiant penodol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed gael ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel rhan o raglen y CSC. Bydd yr anghenion hyfforddi'n cael eu hadnabod gan y Swyddogion Cymraeg mewn Addysg a'u bwydo i'r rhaglen waith ar gyfer yr Ysgolion Hwb.

Yn ogystal, mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn cynnig profiadau preswyl mewn lleoliadau lle siaredir Cymraeg, yn enwedig canolfannau'r Urdd yn Llangrannog a Glan Llyn. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi gweithio'n uniongyrchol ag ysgolion ac mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru a Menter Bro Morgannwg i hyrwyddo cyfleoedd pellach i ddysgwyr o bob oed gael gwella eu sgiliau iaith Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

### **Cynyddu'r nifer sy'n astudio Lefel A mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o'r nifer sy'n astudio TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.**

Fel arfer mae rhwng 1000-1200 o ddisgyblion yn sefyll TGAU Cymraeg yn ysgolion y Fro. Mae hyn yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith. Mae tua 1-2% yn symud ymlaen i astudio Lefel AS a Lefel A.

Ffig. 11

	2012	2013	2014	2015	2016
A	11	13	17	6	7
AS	11	13	10	4	11
TGAU	1076	1265	1124	1154	1140



**Ffig. 12**

	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
<b>A</b>	11	13	17	6	7
<b>AS</b>	11	13	10	4	11
<b>TGAU (llawn)</b>	452	616	627	752	738

**Ffig. 11 & 12**

Fel arfer o 2013 ymlaen, mae rhwng 600-750 o ddisgyblion yn sefyll y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg Ail Iaith yn ysgolion Bro Morgannwg, sy'n gynnydd sylweddol ar flynyddoedd cynt. Fodd bynnag mae'r nifer sy'n symud ymlaen i sefyll Cymraeg Lefel AS a Lefel A wedi gostwng yn sylweddol. Mae'n faes sydd angen ymchwilio iddo.

Bydd yr Awdurdod Lleol, ar y cyd â'r CSC, yn parhau i weithio ag adrannau'r Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gynnal a chynyddu nifer y disgyblion sydd am wneud Lefel AS / A mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA5.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i dargedu cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio'r cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg Ail Iaith, fydd yn ei dro'n eu hannog i symud ymlaen at astudio Lefel AS/A dros y flwyddyn academaidd nesaf.

**Diweddariad:**

Nodwyd bod niferoedd y disgyblion sy'n astudio Cymraeg ar lefel UG a lefel A i lawr, ac mae Consortiwm Canolbarth y De yn cydnabod bod hyn yn broblem sydd ddim yn unigryw i Fro Morgannwg.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn credu er bod tueddiad cenedlaethol lle mae niferoedd disgyblion sy'n dewis Cymraeg fel pwng Lefel UG/A yn gostwng, cafodd cyflwyniad y Fagloriaeth Gymreig effaith ar niferoedd. Yn hanesyddol, byddai disgyblion wedi ystyried Cymraeg fel trydydd neu bedwerydd pwnc, ond nid yw hyn yn digwydd llawer mwyach ers i'r Fagloriaeth gael ei chyflwyno. Mae gan yr ysgol dueddiad hanesyddol lle mae'r niferoedd sy'n dewis pynciau Gwyddoniaeth yn uchel ac yn gystadleuol tu hwnt. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar yr adran. Mae'r adran yn hollol ymwybodol o'r patrwm cenedlaethol a lleol – mae'r niferoedd sy'n astudio'r pwnc yn dal i fod yn anghyson. Ar hyn o bryd, dim ond dau sy'n astudio'r pwnc ym Mlwyddyn 13, fodd bynnag mae 7 disgybl yn y dosbarth Blwyddyn 12. Mae disgwyl i'r niferoedd sy'n cymryd y pwnc o fis Medi 2017 gynyddu i o leiaf 10.

### **Mwy o ddysgwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch**

Cyfanswm yn astudio Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf fel canran o'r nifer a astudiodd TGAU Cymraeg iaith Gyntaf ddwy flynedd yn gynt.

<b>Nifer yn astudio TGAU Cymraeg iaith Gyntaf 2014</b>	<b>Nifer yn astudio Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf 2016</b>	<b>%</b>
133	1	0.75

Ffynhonnell y data: Data CA4 2014 a CA5 2016

Cyfanswm yn astudio Lefel A Cymraeg Ail iaith fel canran o'r nifer a astudiodd y cwrs TGAU llawn a byr mewn Cymraeg Ail iaith ddwy flynedd yn gynt

<b>Math o Arholiad</b>	<b>Nifer yn astudio TGAU Cymraeg Ail iaith 2013</b>	<b>Nifer yn astudio Lefel A Cymraeg Ail iaith 2015</b>	<b>%</b>
<b>Cwrs TGAU Byr</b>	497	8	1.61%
<b>Cwrs TGAU Llawn</b>	627	8	1.28%
<b>Pawb</b>	1124	8	0.71%

Ffynhonnell y data: Data CA4 2014 a CA5 2016

Ym mis Mawrth 2016 lansiodd Llywodraeth Cymru Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru. Bydd yn golygu bod gan bob person ifanc yng Nghymru hawl i gael mynediad hawdd at:

- Leoedd cyfarfod diogel, cynnes gyda chyfleusterau digonol i roi cyfle i fwynhau gweithgareddau celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau drwy strwythurau ffurfiol ac anffurfiol i bobl ifanc yn lleol a chenedlaethol (e.e. meiri ifanc, cynghorau ieuenctid a Senedd).
- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ar faterion fel cyflogaeth, tai a lles meddwl a hyn i fod ar gael drwy'r cyfryngau digidol a thrwy oedolion dibynadwy a hyfforddedig.
- Eu hannog i ddysgu mwy am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.
- Darpariaeth wedi'i chydlyn gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg
- Cyfleoedd i wneud gwaith dinesig, e.e. gwirfoddoli.

Cydnabod a / neu achrediad ar gyfer yr hyn a gyflawnir ganddynt yn bersonol ac o ran eu datblygiad cymdeithasol yn yr ysgol, coleg ac yn y gymuned.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd i bobl ifanc gael datblygu eu sgiliau iaith gyda'r sector gwirfoddol – yr Urdd. Ynghyd â Choleg Cymunedol Cymru'r YMCA mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen arweinwyr ifanc i ddisgyblion chweched dosbarth a chyfleoedd i wirfoddoli mewn lleoliadau ieuenctid. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhedeg clwb ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Gymunedol Palmerston ac yn cynnig ystod eang o

weithgareddau allgyrsiol. Mewn partneriaeth â Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r Urdd, mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn cefnogi Gweithiwr Ieuencid a leolir yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i annog disgyblion i gymdeithasu'n anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnig rhaglenni cymorth ieuencid i ddysgwyr drwy ddulliau anffurfiol. Bydd y Gweithiwr Ieuencid yn yr ysgol yn parhau yn amodol ar Benderfyniad y Cabinet ar 3/10/16 i roi cyllid ychwanegol yn lle grant tair blynedd sydd bellach wedi dod i ben.

Mae cynnydd cyson wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n mynychu'r Ddarpariaeth Ieuencid Cyfrwng Cymraeg ers ei symud i Ganolfan Palmerston mewn partneriaeth ag ACL VOG a Chymraeg i Oedolion. Mae'r nifer sy'n mynychu'n parhau i fod yn uchel. Bydd dysgwyr WfA yn cael eu gwahodd i gefnogi'r clwb ieuencid fel gwirfoddolwyr i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau. Yn 2015/16 mynychodd dros gant o bobl ifanc, gyda thua hanner cant wedi mynychu dros chwe mis cyntaf 2016/2017. Ar hyn o bryd mae'r nifer sy'n mynychu'n 59% o fenywod a 41% o fechgyn. Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau sy'n adlewyrchu Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpasau 2013.

2015-16	Sesiynau	Cysylltiadau	Unigolion
Clwb Cymraeg y Barri	64	1465	111

  

2016-17	Sesiynau	Cysylltiadau	Unigolion
Clwb Cymraeg y Barri	22	469	48

(Data QES)

Mae'r prosiect ieuencid Iaith Gymraeg yn y Fro, sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuencid y Fro, yr Urdd ac ACL, wedi'i ganmol mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru ar Waith Ieuencid a'r Gymraeg, gyda nifer fawr o weithgareddau a chyfranogwyr. Cafodd hefyd ei enwebu am Wobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid yn 2016. Mae wedi'i gydnabod fel un o'r Clybiau Ieuencid Iaith Gymraeg gyda'r presenoldeb gorau yn ne Cymru.

Yn ôl arolwg yn yr Hydref 2015 a holodd dros 1,700 o bobl ifanc ar draws y Fro, dywedodd 16.28% eu bod yn rhugl yn Gymraeg ac roedd 25% o'r rhai a holwyd eisiau gweithgareddau wedi eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen cael trafodaeth ar ariannu'r gweithiwr ieuencid iaith Gymraeg llawn amser yn y Fro yn y dyfodol. Fel y saif pethau ar hyn o bryd daw'r rôl i ben ym mis Medi.

Mae'r gwasanaeth CACL yn trafod darparu clwb gwaith cartref iaith Gymraeg i deuluoedd gyda phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'n bwysig nodi na fydd Prifysgol Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro (CAVC) yn rhan o'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn y Fro o'r 31 Gorffennaf 2016 ymlaen. Dyfarnwyd contract y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion i VOG ACL am dair blynedd o 01/08/2016 tan 31/07/2019. Mae'r tîm Cymraeg i Oedolion ym Mro Morgannwg wedi tyfu'n sylweddol o ganlyniad i'r contract newydd ac ar gael yng Nghanolfan Palmerston ac ar draws yr ardal. Bydd aelod o'r tîm yn falch o gwrdd ag unrhyw reolwr gwasanaeth neu bartneriaid i drafod y ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion neu addysg cyfrwng Cymraeg i oedolion [learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk) neu [dysgucymraeg@bromorgannwg.gov.uk](mailto:dysgucymraeg@bromorgannwg.gov.uk).

Mae gan lyfrgell y Barri Gaffi Cymraeg bob dydd Sadwrn rhwng 10.00-12.00. Mewn partneriaeth â Diwylliant a Dysgu Cymunedol. Grŵp cwrdd anffurfiol i oedolion sy'n dysgu Cymraeg ydyw, wedi'i hwyluso gan diwtor Cymraeg i Oedolion sy'n darparu rhaglen dreigl o weithgareddau.

Bydd Diwylliant a Dysgu Cymunedol Bro Morgannwg yn parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd drwy ddarparu lleoliad ar gyfer Clwb Ieuenctid yr Urdd.

Dysgu Cymraeg – Mae'r Fro'n darparu rhaglen o gyfleoedd dysgu anffurfiol sydd ar gael i oedolion 16+ oed i roi cyfle iddynt gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn dathliadau cymunedol a diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Darperir y cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar bob lefel, o sesiynau Blasu i rai Rhugledd, fel bod dysgwyr o bob oed (16+) yn gallu cynnal a gwella eu sgiliau iaith.

Bydd oedolion sy'n ystyried a / neu'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn cael cynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn y rhaglen Cymraeg i Oedolion drwy wersi Blasu a rhaglen sy'n prysur dyfu o gyrsiau Cymraeg i'r Teulu. Dysgu Cymraeg – bydd y Fro'n parhau i gefnogi'r teuluoedd hyn drwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol, diwylliannol a gweithgareddau fel bod rhieni a phlant yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd y tu allan i'r ysgol.

Mae gwaith craidd Menter Bro Morgannwg yn cynnwys chwe blaenoriaeth. Y rhain yw:

- Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Magu hyder a newid agweddau pobl at y Gymraeg
- Cryfhau'r iaith Gymraeg a'i defnydd ymhlith teuluoedd
- Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion
- Datblygu Gwyliau Cymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r iaith.

Drwy ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau hyn, mae Menter Bro Morgannwg yn cwmpasu prif flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg o ran yr iaith, teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithle.

Mae Menter Bro Morgannwg yn gweithio'n agos â Chyngor Bro Morgannwg a phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys Urdd Gobaith Cymru a Cymraeg i Blant, i ddarparu ystod o weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol i blant, pobl ifanc, teuluoedd a dysgwyr Cymraeg. Mae ein gwasanaethau presennol yn cynnwys sesiynau Amser Stori, y Cynllun Gofal Gwyliau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Boreau Coffi misol i ddysgwyr Cymraeg, Gigs Bach y Fro a Gŵyl Fach y Fro.

Ar hyn o bryd mae Menter ar fin cwblhau cytundeb Fframwaith gyda Chyngor y Fro i ddarparu mwy fyth o gyfleoedd i ddysgwyr i ymarfer a defnyddio eu Cymraeg mewn lleoliadau anffurfiol. Bydd y cytundeb newydd hwn yn cynnwys nifer o feysydd gwasanaeth fel Chwaraeon a Chwarae, Darpariaeth Gofal Plant a Gwyliau'r Ysgol a Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Y bwriad yw i'r rhaglen newydd hon o wasanaethau fod yn ei lle o fis Tachwedd 2016 ymlaen.

### Cymwysterau ychwanegol i ddarparu gweithgarwch corfforol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Cyngor Bro Morgannwg eisiau gweld:

- 4 o fyfyrwyr Blwyddyn 12 Ysgol Bro Morgannwg yn ennill cymhwyster Lefel 2 Arweinwyr Chwaraeon yn y Gymuned, Cymorth Cyntaf a nifer o gymwysterau eraill i ddarparu gweithgarwch corfforol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol / cymuned ym Mro Morgannwg drwy gofrestru ar y 'Cynllun Hyfforddwyr y Dyfodol'.
- 30 o ddisgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Bro Morgannwg yn ennill cymhwyster Lefel 1 Arweinwyr Chwaraeon i helpu i ddarparu addysg gorfforol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol / cymuned ym Mro Morgannwg.
- 4 Llysgennad Ifanc Arian a 2 Llysgennad Ifanc Aur i gael eu hadnabod yn Ysgol Bro Morgannwg i hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn yr ysgol ac i gynrychioli Bro Morgannwg ar lefel genedlaethol.
- Pob ysgol gynradd Cymraeg iaith gyntaf ym Mro Morgannwg i gael cynnig cwrs Playmaker. Ceisio recriwtio arweinwyr ifanc i helpu i ddarparu gweithgarwch corfforol yn eu hawr ginio ac i hyrwyddo chwaraeon yn yr ysgol. Dau unigolyn o bob ysgol i gael eu hadnabod fel Llysgenhadon Ifanc Efydd ac i gynrychioli'r ysgol ar lefel awdurdod lleol. Uwchsgilio staff cymorth ysgolion cynradd i ddarparu addysg gorfforol allgyrsiol yn yr ysgol gynradd.

Mae'r cynllun 'Hyfforddwyr y Dyfodol' yn rhan o raglen waddol Gemau Olympaidd Bro Morgannwg i helpu i 'ysbrydoli cenhedlaeth' o gyfranogwyr a hyfforddwyr. Mae'r cynllun wedi'i ddyfeisio i roi cyfle i Bobl Ifanc gyflawni a dod yn rhan o raglenni i feithrin Arweinwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon.

Pwrpas y rhaglen, sydd ar gael i bobl ifanc 16-19 oed ymroddedig ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, yw rhoi cyflwyniad ffurfiol ac ystyrlon i hyfforddi a gwirfoddoli mewn chwaraeon, dawnys a gweithgareddau corfforol eraill drwy ddarparu hyfforddiant a phrofiad 'ymarferol' o hyfforddiant mewn ysgolion ac yn y gymuned.

Disgwylir i bobl ifanc sy'n ymuno â'r cynllun ddilyn y rhaglen am un flwyddyn academaidd o leiaf. Byddant yn ennill nifer o gymwysterau a dyfarniadau mewn hyfforddiant ac arweinyddiaeth chwaraeon:

- Arweinwyr Chwaraeon Cymunedol Lefel 2 (Gorfodol)
- Cymorth Cyntaf – cwrs pedair awr person penodedig (gorfodol)
- Hyfforddwyr Chwaraeon y DU – Cwrs Diogelu a Gwarchod Plant (gorfodol)
- Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd (gorfodol)
- Cwrs Lefel 1 UKCC mewn chwaraeon o'ch dewis chi (gorfodol)
- Cymhwyster Aml-Sgiliau'r Ddraig (dewisol ym Mlwyddyn 2)
- Cwrs Arweinyddiaeth y Corff Llywodraethu Cenedlaethol (dewisol ym Mlwyddyn 2)

Byddant hefyd yn ennill profiad o hyfforddi Pobl Ifanc eraill drwy leoliadau a drefnwyd mewn ysgolion a chlybiau chwaraeon lleol.

### Cynllun Llysgenhadon Ifanc

Nod y rhaglen Llysgenhadon Ifanc yw grymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn arweinwyr drwy chwaraeon, i helpu i annog eu cyfoedion segur i gael blas ar chwaraeon. Mae dros 2,800 o Lysgenhadon Ifanc mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ar draws Cymru. Mae'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn recriwtio, hyfforddi, defnyddio a dathlu'r unigolion anhygoel sy'n gwirfoddoli eu hamser mewn chwaraeon.

Disgwylir i bob Llysgennad Ifanc:

- Fod yn llais pobl ifanc dros Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yn eu hysgol a chymuned
- Hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol chwaraeon
- Bod yn fodel rôl a phencampwr dros Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol
- Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan a ffyrdd iach o fyw i helpu i gael pob plentyn i gael blas ar chwaraeon am oes

### Cymhwyster Lefel 1 Arweinwyr Chwaraeon yn y Gymuned

Mae SL1 yn gymhwyster cenedlaethol lle mae'r dysgwr llwyddiannus yn gallu helpu i arwain chwaraeon / gweithgareddau corfforol hwyliog a phwrpasol, o dan oruchwyliaeth uniongyrchol. Bydd yn cynnwys sgiliau arweinyddiaeth fel trefnu, cynllunio, cyfathrebu a gwaith tîm drwy gyfrwng chwaraeon.

### Dyfarniad Playmaker

Mae'r Dyfarniad PlayMaker yn gyflwyniad gwyb i arweinyddiaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr 9+ oed. Dyfeisiwyd y dyfarniad fel cwrs undydd i'w ddefnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau addysg gyda ffocws ar ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth y dysgwr. Erbyn diwedd y cwrs, bydd y dysgwr wedi ennill sgiliau trefnu gemau a / neu weithgareddau syml sy'n gyfarwydd iddynt ac yn teimlo'n hyderus yn helpu i arwain grŵp bach o gyfoedion neu blant iau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

### Cysylltiadau â'r Urdd.

Parhau i gael cysylltiadau cadarnhaol â'r Urdd i gynyddu'r ddarpariaeth chwaraeon drwy'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Pwyslais ar gynnal y clybiau cymunedol allgyrsiol a'r sesiynau ysgol presennol yn y Fro gan obeithio cael mwy o ddarpariaeth yn y dyfodol. Gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd i ddarparu cyrsiau hyfforddi ar gyfer disgyblion Ysgol Bro Morgannwg i'w cymhwyso i helpu allan yn y clybiau cymunedol iaith Gymraeg.

## **Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).**

### **Amcanion:**

1. Sicrhau y darparir hyfforddiant priodol i'r holl CADYwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.
2. Datblygu arferion cydweithio ymhellach er mwyn sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael ym mhob maes ADY.
3. Sicrhau y darparir gohebiaeth, cyngor ac asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY cymhleth mewn ffordd fanwl, a datblygu darpariaeth ar gyfer y dyfodol yn unol â'r hyn sy'n briodol.

### **Datganiad Ategol:**

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer AAA trwy gynnig gohebiaeth, cyngor, asesiadau a'r ymyrraeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ystyried yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael. Mae'r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg priodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg CAAAwyr dynodedig sy'n cael cymorth gan y Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi amrediad o staff dwyieithog gan gynnwys Seicolegwyr Addysg ac Athrawon Arbenigol. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Gweithredol presennol ar gyfer ADY yn siaradwyr Cymraeg hefyd. Pan na fydd siaradwyr Cymraeg ar gael i ddarparu cymorth arbenigol, mae'r Cyngor yn ceisio gweithio gydag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau ystod lawn o wasanaethau cyfrwng Cymraeg

Mae modd i ysgolion gysylltu â phersonél priodol yn y Fro yn uniongyrchol. Anfonir ceisiadau gan deuluoedd neu ysgolion cyfrwng Cymraeg am asesiad statudol i'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion. Fe'u ystyrir yn yr un ffordd ag yr ystyrir yr holl geisiadau eraill, trwy ystyried y difrifoldeb a'r ymateb i'r ymyrraeth ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae'r holl ddogfennaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn cynnal Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Phrosiect Cyngori Anghenion Arbennig (SNAP) Cymru, ac mae modd i rieni ofyn am wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff cyfeiriadau plant mewn meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg y mae ganddynt nam lleferydd, iaith a chyfathrebu eu gwneud i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro yn uniongyrchol, ac maent yn gallu cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd a chyfrifoldeb clir i hyrwyddo ac i sicrhau cydraddoldeb cyfle addysgol ac i gynyddu cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n ymdrechu i ganiatáu i'r holl blant fynychu'r ysgol prif ffrwd yn eu cymdogaeth leol i'r graddau ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u hasesu mewn ffordd fanwl. Mae'r rhan fwyaf o blant sydd ag ADY yn mynychu eu hysgol leol, sy'n nodi ac yn asesu ADY yn unol â Chod Ymarfer ADY Cymru. Pryd bynnag y bo modd, darparir ymyrraeth i ddisgyblion ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, heb yr angen am ddatganiad, boed hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu darpariaeth gynhwysol ar gyfer AAA Cymraeg ac nid yw'n cynnal darpariaeth AAA cyfrwng Cymraeg ar wahân ar hyn o bryd. Ystyrir darpariaeth benodol ar gyfer pob plentyn fesul achos er mwyn sicrhau datrysiad wedi'i seilio ar anghenion. Pan fydd gofyn cael cymorth 1:1, bydd yr ALI yn gweithio gydag ysgolion i ddarparu hwn trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n briodol. Caiff YCDwyr sy'n siarad Cymraeg eu recriwtio mewn ysgolion

cyfrwng Cymraeg. Estynnir gwahoddiad i staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i fynychu holl weithgareddau hyfforddiant sy'n ymwneud ag ADY ac YCD, a chânt eu cynnwys yn yr holl weithgareddau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn gweithio gyda Phenaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg i asesu'r angen am adnodd arbenigol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth. Ar hyn o bryd, ystyrir anghenion cyfrwng Cymraeg disgyblion fesul achos. Pan fydd gofyn cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg benodol, bydd yr Awdurdod yn ceisio cymorth gan awdurdodau cyfagos neu bydd yn darparu cymorth ychwanegol mewn darpariaeth arbenigol er mwyn sicrhau y darparir cyfran sylweddol o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal, darparir cludiant am ddim i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac y mae gofyn iddynt gael cludiant, fel y nodir gan dîm Cyflawniad a Chynhwysiant y Cyngor. Os bydd angen addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar y disgybl, byddai'r cam o ddarparu cludiant yn cael ei ystyried ar sail anghenion y disgybl.

#### Diweddariad:

Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ym Mro Morgannwg sy'n cynnwys swyddogion yr Awdurdod Lleol a Phenaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg. Diben y grŵp yw:-

- archwilio lefelau ADY presennol yn ôl categorïau angen;
- asesu mynediad at wasanaethau cymorth ar gyfer disgyblion ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ôl categorïau angen; a
- datblygu cynigion i fodloni unrhyw fylchoedd a nodwyd yn y ddarpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc ag ADY.

Er mwyn llywio'r grŵp tasg a gorffen, cynhelir asesiad o ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY ar sail y consortiwm cyfan. Mae'n debygol y bydd angen defnyddio dull cydweithredol/comisiynu ledled Consortiwm Canolbarth y De er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl ag ADY. Er mwyn hwyluso hyn, mae angen cynnal asesiad o'r ddarpariaeth ledled y consortiwm. Mae'r amserlen asesu a'r camau dilynol ar ôl gweithredu fel a ganlyn:

Dyddiad	Action
Medi 2017 – Ebrill 2018	Cwblhau Archwiliad Consortiwm Canolbarth y De
Ebrill 2018	Asesu'r canfyddiadau wedi'u rhannu gydag arweinwyr ADY ym mhob Awdurdod Lleol
Ebrill 2018 – Medi 2018	Datblygu Cynllun Gweithredu'n amlinellu cynigion ar gyfer darpariaeth ADY yn y Fro
Medi 2018 – Medi 2019	Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith



## Deiliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

**Rhestrwch eich pedwar prif amcan i gyflawni'r deiliant hwn (rhestrwch eich amcanion ar ffurf pwyntiau bwled).**

### **Amcanion:**

1. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos â holl ysgolion y Fro a Chonsortiw Canolbarth y De i sicrhau bod digon o ymarferwyr ar gael i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Parhau i ystyried anghenion hyfforddi / datblygu'r ymarferwyr wrth benderfynu ar raglenni dysgu proffesiynol rhanbarthol.
3. Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i ddarparu cymorth i ysgolion cyfrwng Cymraeg fel ysgol hwb dysgu broffesiynol, gan gynnwys darparu'r Rhaglen Athrawon Rhagorol a'r Rhaglen Athrawon sy'n Gwella.
4. Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i yrru diwygiadau i'r cwricwlwm fel ysgol Arloesol.

### **Datganiad cefnogol**

Sicrhau bod digon o ymarferwyr ar gael i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae swyddogion o Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg, drwy gydweithio'n agos â gwasanaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol a'r Cynghorwyr Herio perthnasol o Gonsortiw Canolbarth y De (CSC) yn cefnogi pob penodiad uwch-arweinydd yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda:

- Phenaethiaid i sicrhau bod digon o ymarferwyr ar gael i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- Cyrff llywodraethu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chynllun iaith Gymraeg a pholisi recriwtio'r Cyngor wrth hysbysebu am ymarferwyr i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Consortiw Canolbarth y De i hyrwyddo rhaglenni arweinyddiaeth i arweinwyr canol ar draws y sector cyfrwng Cymraeg.
- Consortiw Canolbarth y De i hyrwyddo rhaglenni darpar-arweinwyr ymhlith arweinwyr canol a Dirprwy Benaethiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Ysgolion Bro Morgannwg i sicrhau bod digon o gapasiti mewnol i uwchsgilio darpar arweinwyr y dyfodol.
- Ysgolion i sicrhau bod cynorthwywyr addysgu newydd eu penodi'n ymarferwyr ieithyddol medrus.
- Ysgolion i gefnogi cyrsiau hyfforddiant sy'n datblygu sgiliau ieithyddol cynorthwywyr addysgu.
- Consortiw Canolbarth y De i ddadansoddi anghenion datblygu'r gweithlu er mwyn cynllunio rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ac addysgu yn y dyfodol.
- Consortiw Canolbarth y De i ddefnyddio data o ganfyddiadau'r arolwg gweithlu cenedlaethol yng nghyswllt y Gymraeg i oleuo ei raglenni cynllunio'r gweithlu a dysgu proffesiynol (disgwyllir canlyniadau cyntaf yr arolwg, gan EWC, ym mis Ionawr 2017).

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos â phrosiectau darpar-arweinwyr sy'n ateb anghenion arweinyddiaeth ysgolion yn yr hinsawdd bresennol. Fodd bynnag, mae'n anodd o hyd oherwydd nad oes digon o ymgeiswyr am rolau Dirprwy Bennaeth a Phennaeth. Mae Consortiw Canolbarth y De'n dadansoddi

anghenion datblygu'r gweithlu ar draws y rhanbarth fel bod ei raglenni datblygu arweinyddiaeth ac addysgu a'r ddarpariaeth CPD ehangach yn cyfateb i'r setiau sgiliau a'r gofynion presennol ac i ddod. Yn y cyd-destun hwn, mae'r rhanbarth yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu arweinyddiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau digon o gapasiti arweinyddiaeth yn y dyfodol; mae methu â denu digon o benaethiaid yn bryder arbennig yn y sector cyfrwng Cymraeg.

#### Athrawon:

Nid yw'n glir eto faint o athrawon / lefel y sgiliau sydd ei angen i weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymraeg yn effeithiol; nid oes ychwaith unrhyw ddadansoddiad manwl o sgiliau / hyder mewn ymarferwyr ar lefel genedlaethol / ranbarthol. Fodd bynnag, wrth i fwy o ddata ddod ar gael (e.e. drwy EWC) bydd y Consortiwm yn ei ddefnyddio i oleuo rhaglenni cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion gweithlu rhanbarthol. Bydd hefyd yn parhau i gael cyswllt agos ag ysgolion ac yn ymateb i / a neu'n ariannu rhaglenni a modelau datblygu wrth adnabod yr angen, e.e. hyfforddi athrawon anarbenigol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel y nodwn isod.

Mae'r Consortiwm hefyd yn gweithio'n agos â darparwyr Hyfforddiant ac Addysg Athrawon (ITET) i ddatblygu rhaglenni wedi eu cyd-ddarparu (gan ysgolion a Cholegau Addysg Bellach) ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Maen nhw'n cael eu dylunio i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd a bwriedir datblygu gweithlu wedi cymhwyso'n briodol i ddarparu'r continwmm Cymraeg.

Yn y tymor byr, mae recriwtio i swyddi addysgu penodol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn her o hyd. Mae Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yn arbennig o anodd. Mae'r ddarpariaeth 'hwb' yn ceisio ateb hyn drwy gynnig hyfforddiant i athrawon anarbenigol i addysgu pynciau heblaw eu prif bynciau arbenigol yn effeithiol.

#### Arweinyddiaeth:

Mae recriwtio penaeithiaid i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn anodd. Mae adnabod, datblygu a chefnogi arweinwyr ysgol hefyd yn flaenoriaeth strategol i'r rhanbarth ehangach. Mae'r strategaeth ar gefnogi, datblygu a recriwtio'n cynnwys cynyddu nifer y rhaglenni hyfforddi i arweinwyr ysgol yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd wedi cynnig gwneud y rhaglenni ar gael i ranbarthau eraill. Maen nhw'n cynnwys:

- Rhaglen 'Newydd i Brifathrawiaeth' achrededig i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17;
- Mae'r rhaglen 'Prifathrawiaeth. Nawr!' (i arweinwyr canol sydd am ddilyn gyrfa fel penaeithiaid) wrthi'n cael ei threialu.
- Bydd yr ysgolion 'hwb' cyfrwng Cymraeg uwchradd yn darparu rhaglen 'arweinwyr canol' yn ystod y flwyddyn academaidd hon

#### Hefyd:

- Mae Uwch Arweinydd mewn Addysg (SLE) yn cael ei recriwtio i ddatblygu a chefnogi arweinyddiaeth mewn ysgolion sy'n wynebu her.
- Mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cael eu hariannu i weithio mewn Grŵp Gwella Ysgolion ar arweinyddiaeth: yn datblygu arweinwyr canol, rhannu arferion da ac adnabod arweinwyr y dyfodol.
- Ymgyrch recriwtio i ddenu arweinwyr i weithio fel Penaeithiaid yng Nghymru, gan gynnwys Penaeithiaid sy'n ymarferwyr Cymraeg eu hiaith ac sy'n gweithio yn rhywle arall ar hyn o bryd.
- Mae'r Consortiwm yn cyflwyno rhaglen gymorth i ysgolion sydd am ffedereiddio. Mae hyn ar agor i bob ysgol. Bydd angen i'r ysgolion a ddewisir ar gyfer

y rhaglen gymorth ddangos y bydd ffedereiddio yn:

- Cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr
- Cynyddu'r capasiti arweinyddiaeth yn yr ysgolion

Dalier sylw: Mae gwerthuso effaith y rhaglenni, yr ysgolion hwb a gweithgarwch y grwpiau SIG ar ymarferwyr a dysgwyr yn rhan o raglen ymchwil barhaus y Consortiwm sy'n cael ei rhedeg ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd.

#### Cynorthwyr Addysgu

Nid yw'n glir eto faint o gynorthwyr addysgu / lefel y sgiliau iaith sydd ei angen i weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymraeg yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd y Consortiwm yn defnyddio data gweithlu i barhau i ddylunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu rhanbarthol. Dylai arolwg gweithlu cenedlaethol yr EWC roi data gwerthfawr ar hyn. Disgwylir y wybodaeth gychwynnol yn Ionawr 2017. Bydd hyn yn hwyluso'r cynllunio yn y dyfodol.

#### Her Canol De Cymru (CSWC) a chymorth ysgol-i-ysgol

Yn gynyddol, mae ysgolion yn symud at fodol cymorth ysgol-i-ysgol ar sail asesiad trylwyr o'u hanghenion gwella (wedi'i fonitro gan Gynghorwyr Herio ond wedi'i yrru gan hunanasesiad yr ysgolion eu hunain). Ar sail y canfyddiadau hyn, cynigir cymorth gan ddarparwyr / ymarferwyr effeithiol yn y sector ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y cymorth sydd ei angen i wella sgiliau ymarferwyr ac ieithyddol.

Mae Consortiwm Canolbarth y De (CSC) wedi datblygu Her Canol De Cymru (CSWC). O ran gwella canlyniadau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith, mae hyn yn golygu:

- Mae holl ysgolion y CSC bellach yn rhan o Grwpiau Gwella Ysgolion (SIG). Mae grwpiau SIG yn adnabod meysydd sydd angen eu gwella ar gyfer grwpiau o ysgolion gan gynnig neu gomisiynu cymorth i sicrhau gwelliannau. Bydd y meysydd sydd angen eu gwella'n cynnwys Cyfrwng Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith lle mae'r ysgolion yn cytuno bod y rhain yn feysydd i'w datblygu. Mae ysgolion hwb a chanolfannau arbenigol yn yr ysgolion, yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr effeithiol, yn cynnig rhaglenni cymorth. Mae'r CSC wedi sefydlu tair ysgol hwb Cyfrwng Cymraeg, tair ysgol hwb Cymraeg Ail Iaith uwchradd i gynnig cymorth ar draws y rhanbarth. Mae ysgol hwb Cymraeg Ail Iaith gynradd hefyd ar y gweill.
- Mae'r CSC yn cefnogi ffederasiwn cymharol newydd o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (sy'n cynnwys yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws pob un o'r pum awdurdod) a'r rhwydwaith cyfrwng Cymraeg uwchradd. Bydd y rhain yn gweithio i adnabod anghenion cymorth y sector ac yn comisiynu ysgolion hwb / modelau cymorth CSWC eraill i ddarparu'r cymorth hwnnw. Mae amryw o'r ysgolion eu hunain eisoes yn ysgolion hwb ac yn cynnig rhaglenni hyfforddiant a chymorth drwy ymarferwyr i ysgolion eraill ar draws y rhanbarth.

### Mudiad Meithrin

Mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg ac fel rhan o'r Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP), bydd Mudiad Meithrin yn ystyried:

- cynyddu nifer yr ymarferwyr gyda'r cymwysterau a'r sgiliau Iaith Gymraeg angenrheidiol sydd ar gael i weithio mewn lleoliadau gofal plant Cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys Cylchoedd Meithrin).
- ar hyn o bryd mae Cam wrth Gam (is-gwmni hyfforddiant i'r Mudiad Meithrin) yn cynnig cynllun hyfforddi llawn yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd mae saith myfyriwr yn astudio Diploma Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3; marchnata gyrfaoedd gofal plant gyda disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae'r Mudiad Meithrin a Cham wrth Gam am ddarparu cyflwyniad wedi'i deilwrio i ddisgyblion yn dangos y cyfleoedd gyrfaoel ym maes gofal plant (i'r DDAU ryw), yn enwedig yng ngoleuni cynnig Llywodraeth Cymru i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim yn 2016-17 ac yna ar sail flynyddol drwy ymgynghori â'r ysgol; a
- cynnig cyfleoedd prentisiaeth yn unol â Chynnydd ar gyfer Llwyddiant. Mae gan Cam wrth Gam darged o 208 o brentisiaid erbyn Gorffennaf 2018.

### Cymraeg i Oedolion

Mae'r holl diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn rhan o raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) i ymarferwyr gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a rhaglen Ansawdd Partneriaeth Dysgu Cymunedol Caerdydd a'r Fro.

Mae holl staff Cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys staff ysgolion, yn gallu cofrestru am ddim ar gyrsiau Dysgu Cymraeg yn y Fro. Mae pob lefel ar gael, o Fynediad 1 i Uwch 4 a Rhugledd. Gallai'r cyrsiau Cymraeg i'r Teulu fod yn arbennig o berthnasol i staff ysgolion cynradd / meithrin; darperir y rhain ar lefel Mynediad 1 a 2.

Bydd Diwylliant a Dysgu Cymunedol Bro Morgannwg yn parhau i gynnig mynediad i wersi Cymraeg i Oedolion – Dysgu Cymraeg yn y Fro (WFA) ar bob lefel i staff addysgu a staff cymorth mewn ysgolion. Er y gall staff ysgolion fynd ar y cyrsiau Cymraeg heb orfod talu ar hyn o bryd, mae'n debyg yn y dyfodol na fydd y cyrsiau am ddim ond y byddant yn parhau i fod ar gael am ddisgownt sylweddol. Mae croeso i athrawon a chynorthwywyr gofrestru ar gyfer y gwersi WFA ar unrhyw lefel, gan felly sicrhau bod ôl-hyfforddiant ar gael i rai a fynychodd y cyrsiau Sabothol.

### Diweddariad:

#### Ysgolion:

Mae'r cynllun Sabothol am ddim ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu ac Athrawon mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n adnodd arbennig.

Maent yn darparu cymorth cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn y rhaglen gymorth 'Gyda'n Gilydd'.

Mae Consortiwm Canolbarth y De hefyd yn rhedeg rhaglenni i ddysgu Cymraeg i athrawon mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Niferoedd wedi cwblhau cwrs CS Medi 2005 – Gorffennaf 2017					
Consortiwm	Awdurdod Lleol	Mynediad	Sylfaen	Uwch	Uwch i Gynorthwyyr
		Cynorthwyyr dysgu – ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg		Cynorthwyyr dysgu – ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
CSC	Pen-y-bont	7	7		1
	Rhondda Cynon Taf	13	17	4	11
	Merthyr	3	1	1	3
	Bro Morgannwg	6	7	4	
	Caerdydd	28	18	25	5
Cofrestriadau ar gyfer cyrsiau CS 2017/18					
		Mynediad	Sylfaen	Uwch	Uwch i Gynorthwyyr
CSC	Pen-y-bont	1	1		
	Rhondda Cynon Taf				
	Merthyr				
	Bro Morgannwg	3	2		
	Caerdydd	10	7		

#### Cyngor Bro Morgannwg

Ar hyn o bryd mae Cyngor Bro Morgannwg yn gadael staff i gael amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer dysgu ffurfiol, ac mae'r tîm Cydraddoldeb ac Addysg i Oedolion yn rhannu costau'r cwrs. Caiff y cyrsiau eu darparu mewn lleoliadau yn y gweithle ar amseroedd cyfleus felly mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol eleni. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cyrsiau blasu i annog mwy o ddiddordeb ac mae wrthi'n trefnu modiwl ar-lein ynghylch ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Caiff niferoedd y dysgwyr eu monitro'n flynyddol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Llofnodwyd:..... Dyddiad: .....

(Mae angen llofnod y Prif Swyddog Addysg o fewn yr awdurdod lleol)